



# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 1AF HYDREF, 2018**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 21 Medi 2018)

# **PWYLLGOR SAFONAU**

## **AELODAETH**

### **Aelodau Etholedig (3)**

Y Cynghorwyr

Beth Lawton  
Anne Lloyd Jones  
Dewi Wyn Roberts

### **Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)**

Aled Jones  
Margaret E. Jones  
David Wareing  
Einir Young  
[sedd wag]

### **Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)**

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. ADOLYGIAD O'R DREFN AR GYFER CEISIADAU AM ODDEFEBAU

10 - 16

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 6. PRESENODLEB Y PWYLLGOR SAFONAU AR WEFAN Y CYNGOR

17 - 20

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

21 - 23

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2017-18

24 - 155

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 9. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2018

Derbyn adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro.

---

## PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 9 GORFFENNAF 2018

---

**Yn bresennol:-**

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Beth Lawton, Anne Lloyd Jones a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Dr Einir Young (Cadeirydd) a Mr David Wareing.

**Aelod Pwyllgor Cymuned:-** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Diolchodd y Cadeirydd i Miss Margaret Jones, Is-gadeirydd, am gadeirio'r tro diwethaf ac i'r pwyllgor am eu sylwadau caredig.

Nodwyd bod Ms Jacqueline Hughes, aelod annibynnol, wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar oherwydd ymrwymadau eraill a chytunwyd i anfon llythyr ati ar ran y pwyllgor yn diolch iddi am ei gwaith.

Nododd y Swyddog Monitro y bwriedid hysbysebu'r sedd wag ar y pwyllgor yn y ffordd arferol, ond gan na allai'r penodiad ddigwydd tan y Cyngor llawn ar 4 Hydref, awgrymodd ohirio cychwyn y broses tan ar ôl y gwyliau haf.

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb roi hysbysrwydd i'r ffaith bod y cyfle hwn yn mynd i godi.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018 fel rhai cywir.

### 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2017-18. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen.

#### PENDERFYNWYD

- (a) **Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 4 Hydref, gyda'r ychwanegiad a ganlyn:-**

- **Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad** – nodi bod hyfforddiant wedi'i ddarparu ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd hefyd fel rhan o'r broses anwytho.

(b) **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i gwblhau'r rhageiriau a'r bywgraffiadau, mewn ymgynghoriad â'r cadeirydd.**

## 6. HUNAN ASESIAID A RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-

- gynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r pwyllgor yn ystod 2017-18; ac
- ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2018-19.

### PENDERFYNWYD

(a) **Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i berfformiad yn 2017/18:-**

SWYDDOGAETH	ASESIAD (1/2/3/4)	Tystiolaeth	Camau pellach
Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau	1	<p>Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.</p> <p>Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau anwytho i aelodau ynghyd a chyrsiau manwl ar sail templed CLIC.</p> <p>Adolygu Protocolau Rhoddion a Lletygarwch a Chyswllt Aelodau Swyddogion.</p> <p>Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn</p> <p>Nifer y cwynion a dderbynnir yn isel.</p>	Parhau i fynychu a chefnogi
Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad	1	<p>Cefnogi rhaglen anwytho ar gyfer y Cyngor newydd.</p> <p>Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau.</p>	<p>Ystyried adborth Hyfforddiant a rhaglen hyfforddi newydd</p> <p>Aelodau'r Pwyllgor Safonau i fynychu'r sesiynau hyfforddiant ar y Cod.</p>

		<b>Drws y Cyngor bob amser yn agored i'r aelodau.</b>	
<b>Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad</b>	<b>1</b>	<b>Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod.</b>	
<b>Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad</b>	<b>1</b>	<p><b>Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau</b></p> <p><b>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru</b></p> <p><b>Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir</b></p> <p><b>Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.</b></p>	<p><b>Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth</b></p> <p><b>Ystyried y diwygiadau i'r Cod ymddygiad a sut i rannu'r newid.</b></p> <p><b>Cynnwys buddiannau aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor gan hefyd ystyried dulliau eraill o godi proffil y Pwyllgor Safonau ar y wefan.</b></p> <p><b>Gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd ystyried dulliau o godi proffil y Pwyllgor Safonau ar y Porth Aelodau.</b></p>
<b>Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad</b>	<b>1</b>	<b>Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau anwytho i aelodau ynghyd a chyrsiau manwl ar sail templed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.</b>	<b>Rhaglen Hyfforddiant newydd a chynnwys hyn fel eitem ar raglen waith 2018/19</b>
<b>Rhoi goddefebau i aelodau</b>	<b>1</b>	<b>Ymdriniwyd â cheisiadau am oddefebau gan weithredu ar sail wrthrychol a phriodol.</b>	
<b>Ymdrin ag adroddiadau o driwlynlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon</b>	<b>1</b>	<b>Ni chyfyd angen am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn</b>	

Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad	1	Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath	
Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned	3	<p>Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clerod ac aelodau.</p> <p>Mabwysiadu peilot ar gyfer hyfforddi Cod Ymddygiad.</p> <p>Hyrwyddo trefn datrys leol Unllais Cymru I Gynghorau Cymuned</p>	<p>Rhaglen Hyfforddiant newydd.</p> <p>Cydnabyddir bod mwy o waith cenhadu i'w wneud gan fod cynghorau cymuned a thref yn dal i gynhyrchu cwynion i'r Ombwdson, er bod y rhiniog ar gyfer ymchwilio i gwynion wedi codi. Mae angen lledaenu'r neges mewn ymgais i newid y diwylliant fel bod modd i fwy o gwynion gael eu datrys yn lleol.</p> <p>Rhoi'r peilot ar waith gan amserlennu beth sy'n mynd i gael ei wneud pryd, a sut.</p> <p>Hefyd, fel rhan o'r hyfforddiant, edrych oes modd i glercod cynghorau cymuned a thref gynnig hyfforddiant i'r naill a'r llall ar sail anffurfiol.</p>

(b) Cymeradwyo'r rhaglen waith a ganlyn ar gyfer 2018/19:-

**9 Gorffennaf, 2018**

Adroddiad Blynyddol  
Honiadau yn erbyn Aelodau  
Cwblhau Adolygiad Protocol Aelodau / Swyddogion  
Cymeradwyo Canllawiau Cod

**1 Hydref, 2018**

Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon  
Honiadau yn erbyn Aelodau  
Trefn Goddefebau  
Codi Proffil y Pwyllgor Safonau ar Wefan y Cyngor

**21 Ionawr, 2019**

Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

**Cofrestr Datgan Buddiant  
Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu  
Honiadau yn erbyn Aelodau**

**18 Mawrth, 2019**

**Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith  
Honiadau yn erbyn Aelodau  
Adolygiad Hyfforddiant**

- (c) **Gofyn i'r Gwasanaeth Democratiaeth raglennu calendr dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn y fath fodd fel y caniateir amser digonol rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a'r Cyngor llawn i gyfeirio materion, megis yr Adroddiad Blynyddol, i'r Cyngor nesaf, yn hytrach na gorfod disgwyl am gylch pwyllgorau arall.**

Diolchwyd i'r Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr am eu gwaith yn y maes hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

**7. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU A SWYDDOGION**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-

- ystyried cyfres o newidiadau arfaethedig i'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion yn sgil dymuniad yr aelodau i adolygu'r Protocol ac ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd, penaethiaid adran ac uwch reolwyr y Cyngor; ac
- argymhell i'r Cyngor fabwysiadu'r Protocol.

Rhannwyd copiâu o Atodiad 2 i'r adroddiad (sef eitem 6 o gofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd 12 Ebrill 2018) yn y cyfarfod gan i'r ddogfen gael ei hepgor o'r rhaglen drwy amryfusedd.

Canmolwyd y Protocol ar y sail ei fod yn rhoi arweiniad clir i aelodau a swyddogion o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

Gan gyfeirio at adran 21.6 (a) o'r protocol, sy'n cyfeirio at yr egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, nodwyd bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru 9 nodwedd warchoddedig o gymharu â'r 6 a restrwyd yma. Eglurodd y Swyddog Monitro fod y nodweddion yn unol â'r hyn sydd yn y Cod Ymddygiad, ond y byddai'n gwirio rhag ofn bod angen diwygio'r Cod.

**PENDERFYNWYD argymhell i'r Cyngor llawn ar 4 Hydref fabwysiadu'r diwygiadau i'r Protocol Cysylltiadau Aelodau a Swyddogion, gyda'r ychwanegiad a ganlyn:-**

- **Adran 21.9.3 – Bwlio neu harasio – nodi bod modd cyfeirio at Bolisi Bwlio mewnol y Cyngor am ragor o wybodaeth.**

**8. CANLLAWIAU COD YMDDYGIAD AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i ystyried a chymeradwyo drafftiau o ddau ganllaw i gynorthwyo aelodau gyda'r Cod Ymddygiad, sef:-

- Canllaw Datgan Buddiannau;
- Canllaw Cyswilt Aelod â'r Cyngor fel Unigolyn

Nodwyd y byddai'r Canllaw Datgan Buddiannau yn ddefnyddiol i gynghorau cymuned hefyd.



**PENDERFYNWYD**

- (a) Cymeradwyo'r drafft o'r Canllaw Datgan Buddiannau, yn amodol ar gynnwys manylion cyswilt ar gyfer y Swyddog Monitro, yr Uwch Gyfreithiwr (Dirprwy Swyddog Monitro) a'r Uwch Gyfreithiwr.
- (b) Cynhyrchu'r Canllaw ar ffurf taflen fechan liwgar a deniadol ar gyfer yr aelodau ac hefyd ar ffurf poster i'w osod ar y wal yn ystafelloedd cyfarfod y Cyngor.
- (c) Cymeradwyo'r drafft o Ganllaw Cyswilt Aelod â'r Cyngor fel unigolyn.

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Gan gyfeirio at y dadansoddiad o natur y cwynion hyd yn hyn eleni, nodwyd y byddai'n fuddiol cynnwys y ffigurau cronnus yn yr adroddiadau i'r pwyllgor dros weddill y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**10. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2018**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer Cynhadledd Safonau Cymru a gynhelir yn Aberystwyth ar ddydd Gwener, 14 Medi, 2018 ac yn gwahodd y pwyllgor i gytuno ar cynrychiolwyr i fynd yno.

**PENDERFYNWYD rhoi enwau'r Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton ymlaen i fynd i'r gynhadledd.**

**11. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2017.

Nododd y Cadeirydd iddi gael ei phlesio gyda'r cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ar 29 Mehefin. Cyflwynir cofnodion y cyfarfod hwnnw i'r pwyllgor hwn er gwybodaeth maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.35 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

<b>Pwyllgor :</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>1 Hydref2018</b>
<b>Teitl :</b>	<b>Adolygiad o'r drefn ar gyfer ceisiadau am oddefebau</b>
<b>Awdur :</b>	<b>Swyddog Monitro</b>
<b>Gweithredu :</b>	<b>Penderfynu os dylid diwygio'r drefn</b>

## 1. Cefndir

1.1 Pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod Ymddygiad, mae'n rhaid iddo/i ddatgelu'r buddiant hwnnw a gadael y cyfarfod. Ni ddylai wneud unrhyw gynrychioliadau llafar nac ysgrifenedig na cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw 'chwaith. Yr eithriad i hyn yw pan fydd yr aelod wedi derbyn goddefeb gan y Pwyllgor Safonau.

1.2 Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol.

1.3 Mater i'r pwyllgor yw penderfynu os dylid caniatáu cais ai peidio yn yr amgylchiadau, ac mae'r Ombwdsmon yn cynnig y canllaw canlynol ar yr hyn y dylai ystyried wrth ddod i'w benderfyniad:

*“Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol.”*

## 2. Ceisiadau i'r Pwyllgor hwn

2.1 Yn **Atodiad 1** ceir dadansoddiad o'r ceisiadau sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ers mis Mai 2008. Atodi'r copi o'r ffurflen gyfredol yn **Atodiad 2**.

## 3. Trefniadau Presennol y Pwyllgor

3.1 Nid oes trefn statudol wedi ei gosod ar gyfer ymdrin â cheisiadau, ac mae pob Pwyllgor Safonau yn gweithredu ei drefniadau ei hun. Mae'r Pwyllgor hwn yn gweithredu ar sail adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro sy'n cynnwys copi o'r ffurflen gais ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd wedi ei dderbyn gan swyddogion ar ôl cysylltu gyda'r ymgeisydd.

#### 4. Caniatáu ymgeisydd i fynychu

4.2 Yn ei gyfarfod ar 7 Ebrill 2014 ystyriodd y Pwyllgor yr egwyddor o ganiatáu i gynghorwyr ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno ceisiadau yn bersonol. Awgrymwyd y byddai cael cyfle i holi ymgeiswyr yn fodd i'r Pwyllgor gael mwy o wybodaeth ynglŷn â chais. Teimlai'r pwyllgor serch hynny na fyddai'n ddefnydd gorau o amser unrhyw un, ac y dylid gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth lawnach ymlaen llaw. Penderfynwyd gofyn i swyddogion ystyried a gynhwyswyd gwybodaeth ddigonol gyda'r cais cyn ei osod ar y rhaglen.

4.3 Ar gyfer yr adolygiad hwn, edrychwyd ar arferion pwyllgorau safonau eraill yng Nghymru. Gwelwyd bod nifer ohonynt yn caniatáu i ymgeiswyr i fynychu'r cyfarfod i gyflwyno eu cais neu ateb cwestiynau. Gwelwyd hefyd enghraifft hefyd o glerc cyngor cymuned yn mynychu i gyflwyno gwybodaeth ac ateb cwestiynau ynglŷn â chais a wnaed gan nifer o aelodau o'i gyngor.. Nid yw pob ymgeisydd yn mynychu, ond pan fydd hynny'n digwydd teimla swyddogion ei fod o fudd i'r pwyllgor drwy ganiatáu i'r aelodau ofyn cwestiynau yn uniongyrchol i'r ymgeisydd i gael gwell dealltwriaeth o'r cefndir ac o'r rheswm dros wneud y cais. Oherwydd y byddai gan unrhyw aelod sy'n ymddangos gerbron y pwyllgor fuddiant sy'n rhagfarnu yn y mater, mae Pwyllgor Safonau Ceredigion wedi caniatáu goddefeb gyffredinol i bob aelod i ymddangos i bwrpas cyflwyno cais am oddefeb. Gellir gwahaniaethu hefyd rhwng mynychu ar gyfer cyflwyno'r cais neu fod yn bresennol i ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

4.5 Ystyrir y byddai presenoldeb ymgeisydd yn rhoi'r manteision canlynol:

- Galluogi'r pwyllgor i wneud penderfyniad ar sail yr holl ffeithiau perthnasol, h.y. natur y buddiant, y mater fydd dan ystyriaeth a'r rheswm dros wneud y cais
- Tryloywder ac atebolrwydd yn y modd y gwneir y penderfyniad
- Sicrhau bod yr ymgeisydd wedi cael cyfle i gyflwyno ei (h)achos yn llawn.
- Drwy drefn cwestiynau modd o gael gwell dealltwriaeth o'r cais

4.6 Gwelir mai anfanteision y drefn fyddai:

- Amser a chostau teithio i'r ymgeisydd
- Na fyddai amser a lleoliad cyfarfodydd yn gyfleus i bawb
- Cyfarfodydd y pwyllgor yn cymryd yn hwy
- Cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar y diwrnod nad yw wedi ei gloriannu'n ddigonol.
- Perygl y gallai'r drafodaeth grwydro i drafod y mater sy'n destun buddiant yn hytrach nag a ddylid caniatáu neu beidio

4.7 Petai'r pwyllgor hwn yn penderfynu caniatáu i ymgeiswyr fynychu, gellid ystyried y pwyntiau canlynol fel sail i'r drefn:

- Hawl i ymgeisydd fod yn bresennol i ateb cwestiynau (ond dim rheidrwydd)
- Ymgeisydd i gwblhau'r ffurflen yn llawn ym mhob achos
- Ymgeisydd i gadarnhau ymlaen llaw os yw am fynychu ai peidio
- Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ynglŷn â'r cais
- Dim caniatâd i'r ymgeisydd ofyn unrhyw gwestiwn i'r Pwyllgor
- Ymgeisydd i adael yr ystafell
- Pwyllgor i drafod ac i benderfynu yn absenoldeb yr ymgeisydd
- Hysbysu ymgeisydd o'r penderfyniad drwy ei (g)alw yn ôl i'r ystafell, neu yn ysgrifenedig gan swyddogion

Byddai angen gollyngiad cyffredinol i aelodau fod yn bresennol ar gyfer y drafodaeth.

## **5. Cynghorau Tref a Chymuned**

Pan ddaw ceisiadau i law gan aelodau Cyngor Gwynedd mae modd arferol o gadarnhau'r cyd-destun ar gyfer y cais. Y sefyllfa sydd dan sylw neu amgylchiadau'r cyfarfod. Fodd bynnag ar hyn o bryd er bod cyswllt yn digwydd gyda'r Clerc nid yw hyn wedi ei ffurfioli. Awgrymir felly fod unrhyw gais gan aelod Cyngor Tref neu Gymuned yn gorfod cynnwys llythyr gan y Clerc yn cadarnhau'r cyd-destun ar gyfer y cais a'r sefyllfa. Nid llythyr o gefnogaeth na gwrthwynebiad fyddai hwn ond yn hytrach adroddiad gwrthrychol ar y cyd-destun sydd dan sylw.

## **6. Argymhelliad**

### 6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor:

- (a) Ystyried os dylid caniatáu ymgeiswyr i fynychu cyfarfodydd i ateb cwestiynau
- (b) Addasu'r drefn ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned i fynnu fod y Clerc yn darparu llythyr yn esbonio'r cyd-destun.
- (c) Yn ddarostyngedig i (a) caniatáu goddefeb i aelodau fod yn bresennol ar gyfer ateb cwestiynau ynglŷn â'r cais.

Goddefebau – Ystadegau**Mai 2012- Ebrill 2018**

<b>Ceisiadau wrth gynghorwyr sir</b>	<b>9</b>
<b>Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol</b>	<b>9</b>
<b>Gwrthodwyd</b>	<b>0</b>

<b>Ceisiadau wrth gynghorwyr cymuned/tref</b>	<b>7</b>
<b>Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol</b>	<b>3</b>
<b>Gwrthodwyd</b>	<b>4</b>

<b>Cyfanswm yr holl geisiadau a dderbyniwyd</b>	<b>16</b>
<b>Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol</b>	<b>11</b>
<b>Gwrthodwyd</b>	<b>5</b>

**Mai 2008- Ebrill 2012**

<b>Ceisiadau wrth gynghorwyr sir</b>	<b>20</b>
<b>Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol</b>	<b>16</b>
<b>Gwrthodwyd</b>	<b>4</b>

<b>Ceisiadau wrth gynghorwyr cymuned/tref</b>	<b>8</b>
<b>Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol</b>	<b>3</b>
<b>Gwrthodwyd</b>	<b>5</b>

<b>Cyfanswm yr holl geisiadau a dderbyniwyd</b>	<b>28</b>
<b>Caniatawyd /caniatawyd yn rhannol</b>	<b>19</b>
<b>Gwrthodwyd</b>	<b>9</b>

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON

## 1. MANYLION PERSONOL

1.1 Eich enw

1.2 Enw eich Cyngor

1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

2.1 Beth yw'r eitem dan sylw?

2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?

## 3. MANYLION EICH CAIS

3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?

3.2 Ydych chi'n:

(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un:

neu,

(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):  
ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

**4. Mae'r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae'r manylion llawn i'w gweld yn y nodiadau i'r ffurflen hon). Nodwch pa un o'r amgylchiad(au) hynny sy'n berthnasol i'ch cais drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol:**

<ul style="list-style-type: none"><li>• mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y mater</li></ul>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"><li>• byddai'r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio</li></ul>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"><li>• ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd</li></ul>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"><li>• mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd</li></ul>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"><li>• mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol</li></ul>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"><li>• mae'r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol</li></ul>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"><li>• mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall</li></ul>	<input type="checkbox"/>

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais (h.y. pam yr ydych yn credu y dylech gael caniatâd i fod yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod, er bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu?)**

*(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)*

Arwyddwyd \_\_\_\_\_ Dyddiad \_\_\_\_\_

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):  
ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

## Nodiadau ar gwblhau'r ffurflen

1. Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau'r Ombwdsmon ac yn llyfryn 'Buddiannau' Cyngor Gwynedd.

### **2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**

Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu cais os yw'n dod o fewn un o'r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

“(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.”

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):  
ffôn - 01286 679168 e-bost - [sionH@gwynedd.gov.uk](mailto:sionH@gwynedd.gov.uk)*



# Eitem 6

<b>Pwyllgor :</b>	<b>Y PWYLLGOR SAFONAU</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>1 Hydref 2018</b>
<b>Teitl :</b>	<b>Presenoldeb y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor</b>
<b>Awdur :</b>	<b>Swyddog Monitro</b>
<b>Pwrpas :</b>	<b>Gofyn am farn y Pwyllgor</b>

## Cefndir

1. Fel rhan o'i hunan asesiad yng nghyfarfod 9 Gorffennaf eleni, gofynnodd y pwyllgor i ni gstyried dulliau o godi proffil y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor.

## Y Sefyllfa Gyfredol

2. Mae gwybodaeth am holl bwyllgorau Cyngor Gwynedd ar gael ar wefan y cyngor. Fel canlyniad mae'r manylion canlynol i'w gweld ar dudalen y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd:

- Disgrifiad byr a chyffredinol o rôl y Pwyllgor
- Rhaglenni a chofnodion pob cyfarfod
- Aelodaeth y pwyllgor
- Unrhyw ddatganiadau o fuddiant a wnaed mewn cyfarfod

## Gwybodaeth gellir ei ychwanegu

3. Mae'n bosib ychwanegu gwybodaeth ar y dudalen drwy gynnwys dogfennau neu linciau i ddogfennau ac i wefannau allanol. Enghreifftiau o'r hyn y gellid ei gynnwys yw:

- Disgrifiad mwy manwl o swyddogaethau'r pwyllgor
- Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Safonau
- Y Cod Ymddygiad i Aelodau
- Unrhyw ganllawiau sydd wedi eu cymeradwyo gan y pwyllgor
- Polisiâu, protocolau a chanllawiau perthnasol Cyngor Gwynedd
- Ffurflenni datgan buddiant a gwneud cais am oddefeb
- Canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad
- Canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddefnydd cyfryngau cymdeithasol
- Gwefannau perthnasol megis yr Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru

4. Byddai hyn yn crynhoi gwybodaeth berthnasol i'r maes mewn un lle cyfleus a hygyrch i aelodau, clercod, swyddogion a'r cyhoedd.

## **Argymhellion**

4. Gofynnir am sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor ar yr hyn i'w gynnwys ar wefan y Cyngor

Fy Nghyfrif

English

**CYNGOR GWYNEDD**

Chwilio

Trigolion

Busnesau


Y Cyngor

Ymwelwyr

Meetings &gt; Manylion y Pwyllgor

## Manylion Pwyllgor

### Pwyllgor Safonau

- Pori trwy'r cyfarfodydd a'r rhaglenni ar gyfer y pwyllgor hwn
- Gweld manylion cyswllt aelodau'r pwyllgor hwn
- Gweld ystadegau presenoldeb
- Datganiadau o fuddiant
- Tanysgrifio i ddiweddariadau RSS 

#### Diben y Pwyllgor

Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys 3 cynghorydd, 5 aelod annibynnol ac 1 aelod o gyngor cymuned. Sicrhau y gwarchodir safonau ymddygiad o fewn y cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor yw swyddogaeth y pwyllgor hwn.

#### Aelodaeth

- Beth Lawton

Tud. 19

- Anne Lloyd Jones
- Dewi Wyn Roberts
- Aled Jones
- Margaret E.Jones
- David Wareing
- Einir Young
- Richard Parry Hughes

**Gwybodaeth gyswllt**

**Swyddog cefnogi:** Eirian Roberts. 01286 679018

---

Cysylltwch â ni  
Telerau ac Amodau  
Preifatrwydd a chwcis  
Hygyrchedd  
Map or safle  
2015 Cyngor Gwynedd



# Eitem 7

<b>Pwyllgor :</b>	<b>Y PWYLLGOR SAFONAU</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>1 Hydref 2018</b>
<b>Teitl :</b>	<b>Honiadau yn erbyn aelodau</b>
<b>Awdur :</b>	<b>Swyddog Monitro</b>
<b>Pwrpas :</b>	<b>Er gwybodaeth</b>

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

## 2. Penderfyniadau

### **Cwyn 16956//201801619**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o Gyngor Gwynedd heb ddewis aelod etholedig arall i siarad ar gais gynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio, ar ôl iddo ddatgan buddiant oedd yn rhagfarnu yn y mater.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

Nid oedd o'r farn bod hyn yn torri'r Cod. Nid oedd rheidrwydd ar yr aelod i ddewis aelod arall i siarad ar gais o'r fath.

### **Cwyn 16956/201801620**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd sir nad oedd wedi ystyried cais cynllunio mewn modd gwrthrychol wrth eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd tystiolaeth i gefnogi'r honiad bod yr aelod wedi methu rhoi ystyriaeth i gyngor swyddogion ac wedi methu ystyried y mate yn wrthrychol.

### **Cwyn 16915/201801525**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o gyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol wrth ystyried cais i wyro hawl tramwy cyhoeddus a'i fod wedi penderfynu ar ei farn cyn y cyfarfod gan ei fod wedi cyflwyno ffurflen yn cefnogi'r newid i'r cyngor sir yn 2014.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

Er y gallai cefnogaeth i'r newid arfaethedig fod yn fuddiant, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod, o ystyried yr holl amgylchiadau, y byddai budd cyhoeddus mewn ymchwilio ymhellach hyd yn oed pe profir hynny. Ymysg y ffactorau a ystyriodd oedd yr amser aeth heibio ers cyflwyno'r ffurflen, y gwnaeth hynny a natur gyfyngedig dylanwad y cynghorydd ar y penderfyniad terfynol.

#### **Cwyn 16915/201801526**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o gyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol wrth ystyried cais i wiro hawl tramwy cyhoeddus a'i fod wedi penderfynu ar ei farn cyn y cyfarfod gan ei fod wedi cyflwyno ffurflen yn cefnogi'r newid i'r cyngor sir yn 2014.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

Er y gallai cefnogaeth i'r newid arfaethedig fod yn fuddiant, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod, o ystyried yr holl amgylchiadau, y byddai budd cyhoeddus mewn ymchwilio ymhellach hyd yn oed pe profir hynny. Ymysg y ffactorau a ystyriodd oedd yr amser aeth heibio ers cyflwyno'r ffurflen, y gwnaeth hynny a natur gyfyngedig dylanwad y cynghorydd ar y penderfyniad terfynol.

#### **Cwyn 201802213**

Cwyn gan gyd-aelod, bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant personol oedd yn rhagfarnu mewn mater a drafodwyd gan y cyngor gan ei bod yn ymddiriedolwr ac yn aelod o bwyllgor rheoli'r eiddo dan sylw.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd yn ymddangos bod yr aelod wedi torri'r Cod gan fod yr eitem yn ymwneud a chais i ysgrifennu at y cyngor sir am wybodaeth. Nid oedd trafodaeth na phleidlais a fyddai wedi manteisio'r aelod na'r pwyllgor rheoli.

#### **Cwyn 7294/201802446**

Cwyn gan gyd-gynghorydd bod aelod o gyngor tref wedi ymddwyn mewn modd annerbyniol drwy

- Anfon e-byst ato oedd yn gyfystyr a bwlio neu aflonyddu
- Gwrthod derbyn penderfyniad y cyngor tref ar fater penodol
- Gwrthod condemnio sylwadau gan eraill ar Facebook yr oedd yr achwynydd yn ystyried yn fygythiadau yn ei erbyn

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Ni chyflwynwyd copïau o'r e-byst ond ar sail hyn yr oedd yr achwynydd yn ei ddweud, nid oedd yn debygol y byddai'r Ombwdsmon wedi ymchwilio gan eu bod yn ymddangos yn sylwadau gwleidyddol o fewn ffiniau'r hyn a ganiateir
- Nid oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi ceisio dylanwadu yn amhriodol ar ddiueddrwydd swyddogion

- Nid oedd tystiolaeth bod y cynghorydd wedi cyfrannu at y sylwadau ar Facebook ac nid oedd rheidrwydd ar yr aelod i feirniadu'r sylwadau hynny

### 3. Dadansoddiad o'r Cwynion

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion hyd yn hyn eleni:

<b>Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn</b>	
Aelod o gyngor cymuned	7
Aelod o Gyngor Gwynedd	2
Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned	0
<b>Natur yr achwynydd</b>	
Cynghorydd	3
Aelod o'r cyhoedd	6
Swyddog	0
<b>Natur yr honiad</b>	
Ymddygiad cyffredinol	3
Datgan Buddiant	6
<b>Canlyniad</b>	
Dim ymchwiliad	9
Ymchwiliad	0
Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau	0
Cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru	0

### 4. Achosion Agored

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **1**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **1**

### 5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

# Eitem 8

<b>Pwyllgor :</b>	<b>Y Pwyllgor Safonau</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>1 Hydref 2018</b>
<b>Teitl :</b>	<b>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2017/18</b>
<b>Awdur :</b>	<b>Y Swyddog Monitro</b>
<b>Gweithredu :</b>	<b>Nodi er Gwybodaeth</b>

## Cefndir

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2017 – 2018.
2. Mae copi o'r adroddiad wedi ei gynnwys fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Gellir gweld copi o'r adroddiad hefyd ar wefan yr Ombwdsmon ([www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru) )

## Argymhelliad

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.





# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/18

ARLOESI  GWELLTANT **Tud. 25**  DYLANWADU



# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben  
31 Mawrth 2018

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
o dan baragraffau 14,16 ac 17 o Atodlen 1  
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005



# Cynnwys

<b>Adroddiad Perfformiad .....</b>	<b>1</b>
Adolygiad yr Ombwdsmon o'r Flwyddyn .....	2
Pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud .....	7
Y Gwasanaeth Cwynion.....	11
Ystadegau Gwaith Achos Cyffredinol .....	13
Achosion o Bwys.....	26
Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol .....	28
Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol .....	31
Fy ngwasanaethau - boddhad a chwynion .....	41
Data Ariannol Allweddol .....	44
<b>Adroddiad Atebolrwydd.....</b>	<b>46</b>
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.....	47
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu .....	51
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 .....	52
Adroddiad Taliadau .....	64
Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru .....	68
Cysoni Adnoddau Net â'r Gofynion Arian Parod Net .....	69
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilwyr Annibynol y Archwilydd Cyffredinol Cymru.....	70
<b>Datganiadau Ariannol .....</b>	<b>74</b>
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr .....	75
Datganiad Sefyllfa Ariannol .....	76
Datganiad Llif Arian .....	77
Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr.....	78
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol .....	79
Datgeliadau Pensiynau.....	93
<b>Atodiadau .....</b>	<b>103</b>
Atodiad A: Cwynion am Gyrff Cyhoeddus wedi'u cau.....	104
Atodiad B: Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad wedi'u cau .....	114
Atodiad C: Cwynion am Gyrff Cyhoeddus.....	117
Atodiad D: Data Ymyriad.....	122





**Adroddiad  
Perfformiad**

---

## Adolygiad yr Ombwdsmon o'r Flwyddyn

---



Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad a chyfrifon blynyddol cyfun yma i chi ynghylch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018, sef fy nhrydedd flwyddyn lawn yn y swydd. Yn unol â pharagraff 18 o Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (y Deddf), mae gennyf gyfrifoldeb personol dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol y swyddfa ac am ei gweithdrefnau yng nghyswllt materion ariannol a materion eraill.

### Cynnydd o ran Arloesi, Gwella a Dylanwadu: Adolygiad o 2017/18

Er bod gennym gyd-destun heriol o ran cwynion, rwyf yn falch o allu cyhoeddi bod cynnydd cadarnhaol wedi bod yng ngweithgarwch y swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyfeirio'n benodol at ein themâu strategol ar gyfer y tair blynedd, sef arloesi, gwella a dylanwadu, ym mlwyddyn olaf y cynllun corfforaethol hwn.

O ran *arloesi* mae'r swyddfa wedi gwneud cynnydd pellach mewn perthynas â dadansoddi data, diogelu data a seiberddiogelwch, ac y mae wedi buddsoddi adnoddau sylweddol er mwyn adnewyddu ein system rheoli gwaith achos a'i gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â datblygu gwefan a mewnrwyd newydd.

Mae'r Seinfyrddau rydym wedi'u sefydlu'n ddiweddar wedi cael eu rhoi ar waith eleni, ac wedi darparu gwybodaeth werthfawr o safbwynt darparwyr gofal iechyd a defnyddwyr gwasanaethau. Hefyd, rydym wedi sefydlu seinfwrdd llywodraeth leol a wnaeth gyfarfod am y tro cyntaf.

Mae nifer y cwynion ynghylch iechyd sy'n dod i'r swyddfa yn dal yn destun pryder. Eleni, rydym wedi bod yn falch o weld gostyngiad o 2% nghyfanswm y cwynion, ond mae'r cwynion am fyrrdau iechyd wedi cynyddu 11%. Bu gostyngiad o 10% yn nifer y cwynion am lywodraeth leol eto eleni.



Mae perfformiad y rhan fwyaf o gyrff *gwella* wedi rhoi rheswm i mi wenu. O'r pum bwrdd iechyd a'r ddau awdurdod lleol y mae fy Swyddogion Gwella wedi bod yn gweithio gyda nhw, roeddwn yn falch iawn o weld gostyngiad yn groes i'r duedd gyffredinol ym maes iechyd ar gyfer Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Chwm Taf. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion am Fyrddau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan.

Mae'r pwysau parhaus ar y swyddfa o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cwynion ynghylch iechyd wedi bod yn straen enfawr, gan arwain at ostyngiad o 11% yn nifer yr achosion a gafodd eu cau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae cwynion am iechyd fel arfer yn fwy cymhleth ac mae angen ceisio cyngor clinigol a chysylltu â nifer o ymgynghorwyr, a all arwain at broses ymchwilio hwy.

Fodd bynnag, roedd yn bleser gweld bod nifer yr achosion o gamweinyddu a methiant y gwasanaeth wedi lleihau yn ystod y flwyddyn, gyda 56% o'r cwynion a gafodd eu hymchwilio yn cael eu cadarnhau, o gymharu â 61% yn 2016/17.

Hefyd, dim ond un corff gwella, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a brofodd gynnydd yn nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau.

Mae datrys cwynion yn gyflym a setliadau gwirfoddol yn dal yn rhan bwysig o ddarparu cyfiawnder gweinyddol, sydd bellach yn gyfrifol am 63% o ganlyniadau cadarnhaol i achwynwyr.

Mae'r amrywiant ym mherfformiad y Bwrdd Iechyd wrth ddelio â chwynion yn parhau i fod yn destun pryder ac felly fe wnaeth fy swyddfa drefnu seminar arbennig ar gyfer arferion gorau a chwynion ynghylch iechyd ym mis Mehefin 2017, a seminar arall ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ystod tymor y gwanwyn 2018. Yn yr ail ddiwyddiad o'r ddau, roeddwn yn falch iawn o weld rhagor o gynnydd yng nghyswllt gwasanaethau tu allan i oriau gyda'r prosiect Ymateb Cyflym i Salwch Acíwt i wella gwasanaeth y tu allan i oriau mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru, yn rhannol mewn ymateb i adroddiad thematig fy swyddfa ar y pwnc.

Fe gyhoeddais bedwar adroddiad diddordeb cyhoeddus yn ystod y flwyddyn; roedd pob un yn ymwneud ag iechyd, a dau yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru, dim ond drwy gael y gorau o'r bobl dalentog mae'n eu cyflogi y mae modd i fy swyddfa weithredu'n effeithiol. Yn ystod 2017/18 cafodd y broses datblygu ac adolygu perfformiad staff newydd ei datblygu ymhellach, drwy fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant, gan gynnwys rhagor o gymorth Adnoddau Dynol, anogaeth a hyfforddiant rheoli.

Rwyf yn arbennig o falch o'r gwaith a wnaed i ddatblygu gwerthoedd mewnol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

- Cyflawni – gwneud ein gorau glas
- Cydweithio – dangos parch a gweithio gyda'n gilydd er mwyn llwyddo
- Bod yn Gadarnhaol – dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud

- Cefnogi – bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi amrywiaeth
- Perchenogaeth – derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn
- Parodrwydd – agwedd gadarnhaol hyblyg ac awyddus

O ran *dylanwadu* a chydweithio â chyrrff eraill yng Nghymru a thu hwnt, roeddwn wrth fy modd yn cynnal ymweliadau â'r swyddfa gan Ombwdsmon Gwlad y Basg ac Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol Lloegr. Bûm mewn gweithdy ynglŷn ag ymchwiliadau ar fy liwt fy hun a gynhaliwyd gan Ombwdsmon yr Iseldiroedd yn yr Hag, ac fe fûm hefyd yn siarad mewn seminar ar hyrwyddo heddwch a dealltwriaeth rhwng Georgia ac Abkjazia yng Ngwlad y Basg – digwyddiad wedi'i gefnogi gan Gyngor Ewrop.

Bûm yn cwrdd â Phrif Weithredwyr, swyddogion monitro a swyddogion cwynion corfforaethol y GIG a llywodraeth leol. Ym mis Hydref, bûm yn ymweld â Phwyllgor Safonau Sir y Fflint a Chymdeithas y Meddygon ac yn eu hannerch. O ran ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid, roeddwn yn falch iawn bod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru stonddin yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-coed ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar Ynys Môn, sef fy ardal enedigol.

Yn ystod y flwyddyn, bûm yn cwrdd ag Aelodau Cynulliad ledled y sbectrwm gwleidyddol ac yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar ôl cael fy ethol i Fwrdd Ewrop a Bwrdd Byd-eang Sefydliad Rhyngwladol yr Ombwdsmon, cefais yr anrhydedd o gael fy ethol yn Gadeirydd Cymdeithas yr Ombwdsmon ym mis Mai 2017.

Yn olaf, yn ystod 2017/18, gwelwyd cynnydd yng nghyswllt cam 1 y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig sy'n llywodraethu fy ngwaith. Roeddwn yn falch o weld bod Cyfarfod Cyflawn Cynulliad Cymru wedi pleidleisio 47/1 o blaid egwyddorion Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ac rwyf yn gobeithio y bydd modd gwneud rhagor o gynnydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y cyfuniad o gyd-destun cwynion heriol, profiad o weithgareddau gwella a'r posibilrwydd o bwerau deddfwriaethol ychwanegol yn llywio ein ffocws strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cynllun corfforaethol nesaf yn debygol o arwain at y canlynol:

1. Canolbwyntio adnoddau gwella ar gyrff sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran cwynion
2. Arbenigedd thematig o ymchwiliadau i sicrhau y gall y swyddfa barhau i ddelio â galw mawr o ran iechyd heb golli gallu ac effeithlonrwydd mewn meysydd eraill.
3. Parhau i ganolbwyntio ar arferion da a chydymffurfio



Nick Bennett  
Ombwdsmon

# CIPOLWG O'R FLWYDDYN 2017/18

## Ebrill

Cyfarfuwyd yr Ombwdsmon â Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol newydd Llywodraeth Cymru.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Mai

Penodir Ombwdsmon yn Gadeirydd Pwyllgor Gweithredol Cymdeithas yr Ombwdsman.



## Mehefin

Cynhaliwyd seminar ar ddelio gyda chwynion am gyrff cyhoeddus yn yr awdurdod.

Cymerwyd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-coed.



Urdd

## Gorffennaf

Cyhoeddwyd adroddiad budd y cyhoedd cyntaf y flwyddyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.



## Awst

Amlygwyd ein hadroddiad blynyddol cynnydd o 8% yng nghwynion GIG.

Cyhoeddwyd yr ail adroddiad budd y cyhoedd y flwyddyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.



## Medi

Cynhaliwyd y Seinfwrdd Llywodraeth Leol PSOW cyntaf.



## Hydref

Cyflwynir y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddir dau adroddiad budd y cyhoedd yn erbyn dau fwrdd iechyd.



## Tachwedd

Ymddengys yr Ombwdsmon o flaen Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Lleol a Chymunedau y Cynulliad Cenedlaethol Cymru am archwiliad o'r Adroddiad Blynyddol 2016/17.



## Rhagfyr

Ymddengys yr Ombwdsmon o flaen y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i roi tystiolaeth ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).



## Ionawr

Mynychodd y gweithdy Sefydliad yr Ombwdsmon Rhyngwladol ar Hawliau Dynol yn yr Oes Ddigidol.



## Chwefror

Cynhaliwyd yr Ombwdsmon seminar gwanwyn ar ymdrin â chwyn yn Llandrindod Wells.



## Mawrth

Cytunwyd y Cynulliad Cenedlaethol Cymru egwyddorion cyffredinol y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).



# Pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud

---

## Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y rôl gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar bob corff llywodraethol ac rwyf yn darparu fy ngwasanaeth yn rhad ac am ddim.

## Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, ar y cyfan, yn rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r cyfrifoldeb dros eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Ymhlith y mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt y mae:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai) a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff y mae'n eu noddi.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal lliniarol a gofal cymdeithasol sydd wedi'u hariannu neu eu trefnu'n breifat.

Wrth ystyried cwynion, byddaf yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd diffyg ar ran darparwr y gwasanaeth. Ystyrir hefyd a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisiau ei hun. Os caiff cwyn ei chadarnhau, yna byddaf yn argymhell camau priodol i wneud iawn am y diffyg. Y prif lwybr a ddilynir wrth argymhell iawn, os yw'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi cael cam) yn ôl yn y sefyllfa y byddai ynddi pe na fyddai'r broblem wedi codi. Yn ogystal â hyn, os gwelaf dystiolaeth o wendid systemig wrth ymchwilio, gwneir argymhellion gyda'r bwriad o'i gwneud yn llai tebygol y gall pobl eraill brofi problem debyg yn y dyfodol.

## Cwynion Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â Gorchmynion perthnasol y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu gwneud o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Rwyf hefyd yn “berson rhagnodedig” o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yng nghyswllt codi pryderon sy’n ymwneud â chwythu'r chwiban yng nghyd-destun achosion o dorri'r Cod Ymddygiad ar ran aelodau Awdurdodau Lleol. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau:

- cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cyngorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parciau cenedlaethol
- paneli heddlu a throsedd.

Mae gan bob un o'r awdurdodau hyn god ymddygiad sy'n nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid i aelodau ddilyn egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig mewn bywyd cyhoeddus.

Os bydd cynghorydd sir am wneud cwyn ynghylch cynghorydd sir arall yn ei awdurdod ei hun, rwyf yn disgwyl iddo gyflwyno ei gŵyn i Swyddog Monitro'r awdurdod hwnnw yn y lle cyntaf, gan efallai fod modd datrys y mater yn lleol, heb fy nghynnwys i.

## Y Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli wedi parhau i fy nghefnogi a fy nghynghori o ran cyfeiriad strategol yn ogystal â'r gwaith gweithredol o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd.

## Rhannu Gwasanaethau a Chydweithredu

Mae fy staff Cyllid, AD a TGCh, sy'n hwyluso'r gwaith o gyflawni ein hamcanion, yn cydweithio pan fo'n briodol gwneud hynny, gan rannu gwybodaeth broffesiynol drwy rwydwaith sy'n cynnwys cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynwyr, a byddant yn parhau i wneud hyn.

## Swyddogion Gwella

Yn 2016, ychwanegais swyddogaeth arall at rôl nifer o staff ymchwilio yn fy swyddfa, sef 'swyddog gwella'. Er mai ymchwilio i gwynion fydd eu prif waith o hyd, bydd eu rôl fel swyddogion gwella yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn rhai cyrff penodol o fewn fy awdurdodaeth a gweithredu fel arweinwyr pwnc yng nghyswllt meysydd sy'n parhau i effeithio ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod 2017/18, pennwyd Swyddog Gwella ar gyfer y sefydliadau canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Sir Ceredigion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyngor Sir Powys

Rhodddwyd nifer o dasgau penodol i'r arweinwyr pwnc, sef canfod tueddiadau mewn gwaith achos ar draws y swyddfa, arwain ar adroddiadau thematig, a monitro datblygiadau deddfwriaethol a datblygiadau eraill sy'n effeithio ar y meysydd pwnc.

Rhodddwyd arweinwyr pwnc ar waith yng nghyswllt y canlynol:

- iechyd
- tai
- gwasanaethau cynllunio llywodraeth leol
- gwasanaethau cymdeithasol
- apeliadau ysgolion
- cod ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdod lleol
- darpariaeth ein gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ac
- argymhellion a chydymffurfio

Mae fy swyddogion gwella wedi nodi nifer o newidiadau a gwelliannau ledled y byrddau iechyd yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae newid diwylliannol yn dod i'r amlwg o ran y ffordd y mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn gweld cwynion ac mae awydd i ymgysylltu â'r Ombwdsmon a dysgu o gwynion yn rhan o hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn ymwneud agosach Swyddog Gwella'r Ombwdsmon, gyda staff nyrsio a chlinigwyr uwch yn croesawu cyflwyniad ar berfformiad y Bwrdd a'i berthynas â'r Ombwdsmon yn ei ail seminar blynyddol "Gwranddo a Dysgu o Bryderon". O ran mesur hyn, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yng nghyswllt pa mor brydlon y mae'n ymateb i geisiadau am wybodaeth a chydymffurfio ag argymhellion yr Ombwdsmon, wedi gwella'n sylweddol.


Mae un o fy Swyddogion Gwella wedi bod yn cydweithio â Chyngor Sir Ceredigion ar becyn trin cwynion i'w ddefnyddio'n fewnol yn y Cyngor. Ei nod yw gwella'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn gyffredinol, ac â'r rhai sy'n cael eu gwneud i fy swyddfa i, drwy hyrwyddo atebolrwydd a diwylliant sy'n barod i dderbyn cwynion. Rwyf yn gobeithio y bydd y pecyn yn profi i fod yn adnodd defnyddiol i'r Cyngor ac i awdurdodau lleol eraill sydd am fabwysiadu dull tebyg.

Drwy ymgysylltu a'r cyrff hyn, ein gobaith yw gweld gwelliannau parhaus yng nghyswllt ymdrin â chwynion, dysgu a chywiro pethau, ynghyd â datblygu'r trefniadau llywodraethu sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliant parhaus.

Ar gyfer 2018/19, rwyf wedi penderfynu y dylai'r swyddogion gwella ganolbwyntio ar nifer o gyrff cyhoeddus llai sydd fwyaf angen cymorth arnynt.



## Y Gwasanaeth Cwynion





## Llwyth achosion cwynion 2017/18

(yn cynnwys 345 achosion a ddygwyd ymlaen o 2016/17)

AR GAU

2,101

CWYNIION

I LAWR 11% o 2016/17



1,854

Cwynion Cyrff  
Cyhoeddus  
I LAWR 12%



247

Cwynion Cod  
Ymddygiad  
0%

497 Ystyriaeth  
/ Ymchwiliad  
manwl  
I LAWR 9%



30 Ymchwiliwyd  
I LAWR 32%



405 Datrysiaid neu Cadarnhau  
I LAWR 12%

### O'r rhain:

- 54% Yechyd
- 13% Ymdrin â chwynion
- 10% Gwasanaethau Cyhoeddus
- 5% Tai
- 5% Cynllunio


13 Tystiolaeth o doriad  
I LAWR 41%

### O'r rhain:

- 47% Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
- 30% Cywirdeb
- 23% Datgelu & cofrestru diddordebau

## Ystadegau Gwaith Achos Cyffredinol

Mae nifer yr ymholiadau a'r cwynion (cwynion am gyrrff cyhoeddus, a chwynion am ymddygiad aelodau Awdurdodau Lleol) wedi cynyddu 83% ers 2011/12. Yn 2017/18 cafwyd cyfanswm o 7,114 o gwynion, sy'n gynydd o 5% ers y flwyddyn flaenorol.



Graff 1.1

### Ymholiadau

Mae ymholiad yn golygu cyswllt y mae achwynydd posibl yn ei wneud er mwyn holi am y gwasanaeth a ddarparwyd sydd ddim yn arwain at wneud cwyn swyddogol i mi ar y pryd. Yn ystod y cam hwn yn ein gwasanaeth, byddwn yn cynghori pobl ar sut mae cyflwyno cwyn i mi neu, os yw'r mater y tu hwnt i fy awdurdodaeth i, yn cyfeirio'r sawl sy'n holi at y sefydliad priodol sy'n gallu ei helpu. Pan fydd hynny'n briodol, bydd y Tîm Cyngor ar Gwynion hefyd yn ceisio datrys y broblem yn ystod y cam ymholi heb fynd â'r mater ymlaen i'r cam cwyn ffurfiol.

Yn 2017/18, fe wnaeth y swyddfa ddelio â'r nifer mwyaf o ymholiadau ers iddi gael ei sefydlu. Cafwyd cyfanswm o 4,861 o ymholiadau yn 2017/18, o'i gymharu â 4,512 yn 2016/17 – sy'n gynydd o 8%. Efallai mai'r cynnydd a fu yn amlygrwydd y swyddfa dros yr

ychydig flynyddoedd diwethaf, yn y wasg ac o ran gweithgareddau allgymorth, sydd i gyfrif am hyn, gyda mwy o aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'n gwasanaeth.

Rydym wedi pennu targed i ni ein hunain o ateb galwadau ar ein prif linell ffôn o fewn 30 eiliad mewn 95% o achosion. Mae'r tîm wedi perfformio'n dda, gan ateb 97% o alwadau o fewn yr amser hwn.

### Cwynion am Gyrrff Cyhoeddus

Yn ystod 2017/18, fe gawsom 1,983 o gwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus – gostyngiad o 4% ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae hyn yn golygu bod nifer y cwynion wedi gostwng i'r un lefel â 2015/2016, pan gafodd fy swyddfa 1,992 o gwynion. Er nad yw'n bosibl dangos cyswllt achosol uniongyrchol, rwyf yn hyderus fod y gwaith sylweddol y mae fy swyddfa wedi'i wneud â chyrrff cyhoeddus allweddol ar yr agenda ar gyfer gwella a newid diwylliannol, yn dechrau dwyn ffrwyth erbyn hyn.

Gallwch ddod o hyd i ddadansoddiad manwl o'r nifer o gwynion derbynwyd fesul cyrrff cyhoeddus yn Atodiad C.


### Dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd fesul sector

Am yr ail flwyddyn yn olynol, rwyf yn falch o gyhoeddi bod nifer y cwynion yn erbyn cynghorau sir wedi gostwng. Yn ystod 2017/18, cafodd fy swyddfa 791 o gwynion, o'i gymharu ag 881 yn 2016/17 – sy'n ostyngiad o 10%. Mae gostyngiad sylweddol (28%) wedi bod yn nifer y cwynion am dai cymdeithasol eleni hefyd, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yng nghyfanswm y cwynion yn erbyn cyrrff y GIG, gyda 927 o gwynion yn 2017/18, o gymharu ag 862 yn 2016/17. Mae hwn yn gynnydd o 7%. Gellir priodoli hyn i gwynion am fyrddau iechyd, sydd wedi codi o 676 yn 2016/17 i 747 yn 2017/18 – cynnydd o 11%.


Mae Graff 1.2 yn dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn nifer y cwynion am Fyrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (29%) ac Aneurin Bevan (34%), yn ogystal â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (110%).

Yr hyn sy'n fwy calonogol yw bod y graff yn dangos, er bod nifer y cwynion a gafwyd am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i fod yn uchel, mae'r nifer hwnnw ychydig yn is (3%) na'r flwyddyn flaenorol. Rwyf yn obeithiol y bydd y duedd hon yn parhau y flwyddyn nesaf.



Graff 1.2


Mae Graff 1.3 (isod) yn dangos dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd fesul sector, ynghyd â chymariaethau â'r flwyddyn flaenorol. Mae Cyrff y GIG a Chynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol yn parhau i fod â lle blaenllaw yn ein llwyth achosion.



Graff 1.3


### Cwynion am gyrrff cyhoeddus yn ôl pwnc

Drwy droi i ystyried cwynion yn ôl pwnc, yn hytrach na sector, nid yw'n syndod mai cwynion ynglŷn â gofal iechyd oedd y rhan fwyaf o'n llwyth achosion. Mae'r duedd hon wedi parhau ers sawl blwyddyn. Mae cyfran ein llwyth achosion y mae cwynion am ofal iechyd yn gyfrifol amdani wedi cynyddu o 38% yn 2016/18 i 41% yn 2017/18. Ar ôl hyn roedd cwynion am wasanaethau tai a delio â chwynion. Cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol ac am Gynllunio a Rheoli Adeiladu yw'r ddau fath arall o gŵyn sydd yn y pump uchaf. Mae'r pump pwnc uchaf, ynghyd â chanran y cwynion maent yn gyfrifol amdanynt, i'w gweld isod.



Mae pynciau'r cwynion a gafwyd yn cael eu dangos mewn rhagor o fanylder yn Siart 1.1 isod.

## Cwynion derbynwyd am cyrff cyhoeddus fesul pwnc



Siart 1.1

## Canlyniadau'r cwynion a gafodd eu hystyried – achosion a gafodd eu cau yn ystod 2017/18

Yn ystod 2017/18 fe wnaethom gau 1,854 o gwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, o gymharu â 2,114 yn 2016/17 (gostyngiad o 12%). Mae hyn yn destun pryder i mi.

Mae cwynion am ofal iechyd yn gymhleth, yn cymryd amser ac, fel y nodwyd uchod, yn cynyddu mewn nifer. Mae'r rhain yn cynyddu ein llwyth gwaith yn sylweddol am dri rheswm.

Yn gyntaf, rydym yn llai tebygol o allu datrys cynw neu ddod i benderfyniad am y cwynion hyn heb gael gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys cofnodion meddygol, gan y corff cyhoeddus. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni ddechrau ymchwiliad. O ganlyniad i hynny, y mae hi bum gwaith yn fwy tebygol y bydd angen cynnal ymchwiliad mewn perthynas â chwynion am ofal iechyd na chwynion am unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall.

Yn ail, mae'r cwynion hyn yn fwy cymhleth ac mae'n cymryd amser i ymchwilio iddynt. Gan fy mod yn gallu ystyried barn broffesiynol yn yr achosion hyn, fel arfer bydd angen i mi geisio cyngor clinigol proffesiynol, gan fwy nag un arbenigwr yn aml. Mae hyn yn cynyddu'r amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r ymchwiliad, yn ogystal â chynyddu'r costau cysylltiedig.

Yn drydydd, mae pynciau llawer o gwynion am ofal iechyd yn sensitif ac yn arwyddocaol, ac yn aml yn ymwneud â niwed i aelod o'r teulu, neu ei farwolaeth. Bydd byrddau iechyd a staff clinigol sy'n gysylltiedig â'r materion y cwynir amdanynt yn awyddus i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ac yn gywir yn ein hadroddiadau a'n penderfyniadau, ac felly y dylai fod. Oherwydd bod y materion sy'n cael eu hystyried yn ein hymchwiliadau gofal iechyd yn bwysig ac yn arwyddocaol a'u bod yn ymwneud â chrebwyll proffesiynol, mae adroddiadau drafft yn fwy tebygol o gael eu herio gan un o'r partïon cysylltiedig, neu'r ddau. Mae'r cam pwysig o wahodd sylwadau ar ein hadroddiadau drafft a'n penderfyniadau arfaethedig yn cymryd mwy o amser yng nghyswllt cwynion am ofal iechyd na chwynion eraill. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cyngor arbenigol ychwanegol.

Am y rhesymau hyn, mae'r cynnydd yn nifer y cwynion am ofal iechyd wedi cael effaith sylweddol ar fy nhimau ymchwilio, gan leihau nifer yr achosion sy'n cael eu cau a chynyddu nifer yr achosion y maent yn gweithio arnynt.

Mae crynodeb o'r canlyniadau wedi'i nodi yn nhabl 1.1 isod. Mae'r tabl yn dangos bod nifer y cwynion digymhlethdod y gellid eu cau ar ôl rhoi ystyriaeth gychwynnol iddynt gryn dipyn yn is na'r flwyddyn flaenorol. Er bod nifer yr ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt wedi cynyddu, roedd nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn y flwyddyn ychydig yn is nag yr oedd yn 2016/17.

Mae crynodeb manwl o'r canlyniadau yn ôl darparwr gwasanaeth cyhoeddus i'w weld yn Atodiad A.

Cwynion am Gorff Cyhoeddus - Canlyniad achosion a gaewyd	2017/18	2016/17
Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol	1357	1570
Setlwyd y gŵyn yn wirfoddol	257	287
Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad	8	16
Ymchwiliad: ni chadarnhawyd y gŵyn	84	66
Ymchwiliad: y gŵyn wedi'i chadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol	144	168
Ymchwiliad: y gŵyn wedi'i chadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol - adroddiad er lles y cyhoedd	4	6
Adroddiad arbennig o dan Adran 22 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - y corff cyhoeddus heb gyflawni'r camau gweithredu yr oedd wedi cytuno arnynt yn flaenorol gyda'r Ombwdsmon	0	1
<b>Cyfanswm y Canlyniadau - Cwynion</b>	<b>1854</b>	<b>2114</b>

Tabl 1.1

Gallwch ddod o hyd i grynodedb o'r achosion a dderbyniwyd gan fy swyddfa lle cafwyd ymyriad (naill ai trwy ddatrysiaid cynnar, setliad gwirfoddol, neu gadarnhad o gŵyn ar ôl ymchwiliad) yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn Atodiad D.



## Amseroedd penderfynu

### Yr amser a gymerwyd i ddweud wrth yr achwynydd a oeddwn am ymgymryd â'i gŵyn ai peidio

Rydym wedi pennu amseroedd targed i ni'n hunain ar gyfer penderfynu a dweud wrth achwynwyr a fyddwn yn ymgymryd â'u cwyn ai peidio. Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol 2016/17, rydym wedi newid ein dull er mwyn sicrhau ein bod yn mesur ein perfformiad mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad y defnyddiwr gwasanaeth.

Rydym yn anelu at gyflawni'r amseroedd canlynol:

- Penderfyniad ynghylch a yw'r gŵyn o fewn fy awdurdodaeth/yn gynamserol - cyn pen tair wythnos.
- Penderfyniad ynghylch a ydym am ymchwilio i'r gŵyn ai peidio, ar ôl cynnal asesiad manwl - cyn pen chwe wythnos.
- Datrys y gŵyn, pan fyddwn yn ceisio datrysiaid cynnar heb fod angen ymchwilio iddi - cyn pen naw wythnos.
- Dechrau'r ymchwiliad, pan fo angen ymchwiliad - cyn pen chwe wythnos ar ôl y Dyddiad y Derbyniwyd Digon o Wybodaeth


Mae'r tabl isod yn dangos canran yr achosion lle y llwyddom i gyflawni'r targedau hyn.

	Canran 2017/18
Penderfyniad ynghylch a yw'r gŵyn o fewn fy awdurdodaeth/yn gynamserol - cyn pen tair wythnos.	92%
Penderfyniad ynghylch a ydym am ymchwilio i'r gŵyn ai peidio, ar ôl cynnal asesiad manwl - cyn pen chwe wythnos.	89%
Datrys y gŵyn, pan fyddwn yn ceisio datrysiaid cynnar heb fod angen ymchwilio iddi - cyn pen naw wythnos.	91%
Dechrau'r ymchwiliad, pan fo angen ymchwiliad - cyn pen chwe wythnos ar ôl y Dyddiad y Derbyniwyd Digon o Wybodaeth	74%

Tabl 1.2

## Amseroedd Penderfynu ar Gŵyn

Yn 2017/18 roeddem wedi llwyddo i gwblhau 94% o ymchwiliadau cyn pen 12 mis. Roedd 17 o ymchwiliadau wedi cymryd mwy na 12 mis. Roedd yr achosion hyn yn gymhleth ac yn galw am waith ymchwilio pellach, neu roeddynt yn achosion oedd yn cynnwys heriau sylweddol, gan yr achwynydd neu'r corff cyhoeddus, i'r canfyddiadau drafft. Mae Graff 1.4 yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch amserlen yr ymchwiliad.




Graff 1.4

## Cwynion Cod Ymddygiad

Roedd nifer y cwynion cod ymddygiad a ddaeth i law wedi cynyddu i 270, sef cynnydd o 14% o gymharu â 2016/17.


Mae'r cynnydd i'w briodoli'n gyfan gwbl i gwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud â Chynghorau Cymuned, sydd wedi cynyddu 33%.

Ar y cam hwn, mae'n anodd dweud yn union pam mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn cwynion am aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Mae llawer o'r cwynion wedi codi yn sgil newidiadau i aelodaeth y cynghorau hyn ac mae anawsterau wedi codi rhwng aelodau hirsefydlog ac aelodau newydd. Rwyf yn parhau i hyrwyddo'r cysyniad o ddatrysiad lleol, sydd wedi'i fabwysiadu gan nifer sylweddol o gynghorau tref a chymuned ac mae ymdrechion Un Llais Cymru yn y maes hwn yn galondid mawr i mi. Mewn cydweithrediad â fy swyddfa, mae wedi creu model o broses ar gyfer ei aelodau.



## Natur y cwynion Cod Ymddygiad a ddaeth i law

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd mwyafrif y cwynion Cod Ymddygiad a ddaeth i law yn ystod 2017/18 yn ymwneud â materion cysylltiedig â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Roedd y rhain i gyfrif am 42% o gwynion (37% yn 2016/17). Datgelu a chofrestru buddiannau (19%) ac uniondeb (16%) oedd yr ail a'r trydydd math mwyaf cyffredin o gwynion, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. Yn Siart 1.2 isod ceir ddadansoddiad llawn o natur y cwynion ynghylch Cod Ymddygiad a ddaeth i law.



Siart 1.2

### Crynodeb o ganlyniadau cwynion ynghylch Cod Ymddygiad:

Y canlyniad mwyaf cyffredin yw 'Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol'. O'r 247 cwyn yn 2017/18, caewyd y mwyafrif ohonynt (213) o dan y canlyniad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys penderfyniadau ar y seiliau canlynol:

- nid oes unrhyw dystiolaeth 'prima facie' fod y Cod wedi'i dorri
- nid yw er lles y cyhoedd i ymchwilio.

Caewyd llai o gwynion ar ôl ymchwiliad llawn yn 2017/18 (26) nag yn 2016/17 (34). Y rheswm am hyn yw fy mod wedi parhau i ddefnyddio prawf lles y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gwynion ynghylch Cod Ymddygiad. Mae hyn yn golygu nad wyf ond yn ymchwilio i'r cwynion mwy difrifol os oes angen cynnal ymchwiliad er lles y cyhoedd.

Yn 2017/18 derbyniais naw cwyn oedd yn codi pryderon dichonol cysylltiedig â chwythu'r chwiban mewn perthynas â honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad. Naill ai nid oedd yr achwynwyr hyn wedi darparu dystiolaeth 'prima facie' o dorri'r cod neu nid oeddynt yn cyfiawnhau ymchwiliad er lles y cyhoedd.

Er hynny, o'r achosion yr oeddwn wedi ymchwilio iddynt a'u cau eleni, cyfeiriwyd tri achos at sylw Panel Dyfarnu Cymru. Panel Dyfarnu Cymru sy'n ystyried y dystiolaeth rwyf yn ei pharatoi, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad y mae'r aelod perthnasol yn ei gyflwyno. Yna, mae'r Panel yn penderfynu a oes toriad wedi bod ac os felly, pa gosb, os o gwbl, ddylid ei rhoi. Roedd y Panel wedi ystyried dau o'r achosion hyn ac, yn y naill achos a'r llall, canfuwyd bod achos difrifol o dorri'r Cod wedi bod ar sail fy ymchwiliadau a'm hadroddiadau. Roedd y ddau achos yn ymwneud â Chynghorwyr yn gwneud sylwadau difriol a honiadau di-sail yn erbyn staff a bwlio, aflonyddu, codi ofn ac ymddygiad maleisus. O ganlyniad, cafodd cyn-aelod o [Gyngor Sir y Fflint](#) ei wahardd rhag dal swydd am 14 mis a chyn-aelod o [Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#) ei wahardd rhag dal swydd am 18 mis.

Ceir crynodeb o'r canlyniadau isod, ynghyd â dadansoddiad manwl yn dangos canlyniadau cwynion ynghylch Cod Ymddygiad, yn ôl awdurdod, yn Atodiad B:




## Amseroedd penderfynu

### Yr amser a gymerwyd i ddweud wrth yr achwynydd a oeddwn am ymgymryd â'i gŵyn ai peidio

Yng nghyswllt cwynion ynghylch Cod Ymddygiad, rhoddwyd gwybod i 91% o'r achwynwyr cyn pen pedair wythnos ar ôl y dyddiad y derbyniwyd digon o wybodaeth a oeddwn am ymgymryd â'u cwyn. Braf yw cael dweud fod hyn gryn dipyn yn uwch nag yn ystod 2016/17 pan hysbyswyd 82% o achwynwyr cyn pen pedair wythnos.

Mae rhagor o fanylion am amserlen y penderfyniadau hyn isod.

### Yr amser a gymerwyd i ddweud wrth yr achwynydd a oeddwn am ymgymryd â'i gŵyn ai peidio




Graff 1.5

## Amseroedd penderfynu ar gyfer cwblhau ymchwiliadau Cod Ymddygiad

Roedd nifer cyffredinol y penderfyniadau ar gwynion ynghylch Cod Ymddygiad yn 2017/18 yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Ond, oherwydd mae'r ffaith fod yr achosion sy'n galw am ymchwiliad yn aml yn rhai cymhleth, ynghyd â ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth a phwysau o ran y llwyth achosion ymchwilio "trwm o ran iechyd", mae llai o achosion wedi'u cwblhau cyn pen tri mis - 10% o gymharu â 34% yn 2016/17.

Rwyf yn sylweddoli beth yw goblygiadau amseroedd penderfynu hwy yng nghyswllt yr achosion hyn, o safbwynt yr achwynydd, y cynghorwyr oedd yn destun y cwynion ac o safbwynt lles y cyhoedd ar raddfa ehangach. Byddaf yn parhau i weithio i sicrhau y byddaf yn dod i gasgliadau amserol yn yr achosion hyn yn y flwyddyn i ddod.

Mae Graff 1.6 isod yn dangos yr amseroedd penderfynu ar gyfer cwynion ynghylch Cod Ymddygiad yn 2017/18 o gymharu â 2016/17.



Graff 1.6

## Achosion o Bwys

Yn ystod 2017/18, cyhoeddais bedwar adroddiad er lles y cyhoedd a sbardunodd ddiddordeb sylweddol yn genedlaethol. Mae'r rhain i'w gweld ar wefan fy swyddfa [yma](#).

Roedd pob adroddiad lles y cyhoedd yn gysylltiedig ag iechyd. Roedd dau yn ymwneud â gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd un am Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac un yn gysylltiedig â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Roedd yr achosion yn cynnwys y canlynol:

- Claf a fu farw ar droli mewn ysbyty oherwydd diffygion yn y ddarpariaeth gofal diwedd oes ac ymdrin â chwynion mewn ffordd wael. Canfu fy ymchwiliwr nad oedd urddas y claf wedi cael ei barchu ac nad oedd wedi cael gofal diwedd oes a oedd yn ddigon ystyriol. Cyhoeddodd fy swyddfa nifer o argymhellion, gan gynnwys bod BIP Betsi Cadwaladr yn ymddiheuro ac yn talu iawndal o £1,500 i'r achwynydd, bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at sylw tîm Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Bwrdd Iechyd, atgoffa staff meddygol o'u rhwymedigaethau o ran rheolaeth glinigol a moesegol yn ystod gofal diwedd oes, ystyried rhoi mwy o hyfforddiant i staff mewn gofal diwedd oes a chynnal archwiliad clinigol o'r wardiau oedd yn gysylltiedig â'r achos.
- Claf a ddiodefodd ataliad y galon ac a fu farw ar ôl i staff fethu gwneud diagnosis cywir a rheoli'r ffaith bod ei galon yn methu. Canfu fy swyddfa nad oedd meddygon iau wedi cael digon o gefnogaeth, nad oedd teulu'r claf wedi cael cyngor priodol a bod oedi sylweddol wedi bod cyn ymateb i'r gŵyn. Sicrhawyd ymddiheuriad ac iawndal gwerth £2,750 i'r achwynydd. Hefyd, gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi polisi uwchgyfeirio manwl, atgoffa staff meddygol o weithdrefnau cofnodi adolygiadau dyddiol a'u rhwymedigaethau o ran rhoi goruchwyliaeth a chefnogaeth ddigonol i Feddygon Iau, ac adolygu protocolau asesu cyn llawdriniaeth.
- Bwrdd Iechyd oedd wedi cymryd dros dair blynedd i ddarparu ymateb terfynol i achwynydd. Roeddwn wedi canfod tystiolaeth o gamweinyddu, gan gynnwys cofnodion oedd wedi mynd ar goll a methiannau o ran cyfathrebu, ynghyd â diffyg tryloywder wrth ymchwilio i gŵyn am dor-dyletswydd gofal. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i dalu iawndal o £4,000, trefnu cyngor cyfreithiol am ddim a chynghorydd clinigol annibynnol ar gyfer yr achwynydd, ac i atgoffa'r holl staff meddygol o'u dyletswydd i fod yn agored ac yn dryloyw â chleifion a theuluoedd.



- Methiant ar ran staff meddygol i roi triniaeth a gofal rhesymol i glaf. Roedd y staff wedi colli sawl cyfle i weld bod y claf yn dirywio ac i atal hynny. O ganlyniad, roedd wedi cael ataliad y galon angheuol. Ar ben hyn, ymdriniwyd â'r gŵyn mewn modd gwael a chymerwyd amser afresymol o hir i ymateb i'r achwynydd. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i nifer o argymhellion, gan gynnwys ymddiheuriad a thaliad o £10,000 i'r achwynydd, fel cydnabyddiaeth o'r gofid a'r ansicrwydd a achoswyd iddo.

Merch y claf oedd wedi gwneud y gŵyn olaf. Roedd Ms C yn gweithio i adran trin cwynion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Wrth wneud sylwadau ar yr adroddiad terfynol hwn ar y pryd, dywedais:

“Mae’n destun pryder mawr i mi fod y Bwrdd Iechyd yn gwrthod cyfaddef, pe bai wedi ymdrin â gofal y claf mewn ffordd wahanol, y gellid fod wedi atal ei farwolaeth. Nid yn unig roedd y gofal yn is na'r safon a ddisgwylir yn yr achos hwn, rwyf hefyd yn canfod bod sylwadau'r Bwrdd Iechyd yn annidwyll ac yn dangos amharodrwydd i dderbyn difrifoldeb y sefyllfa.

“Nid yw'r ffaith fod aelod o staff y Bwrdd Iechyd ei hun, oedd yn gyfarwydd â'r broses pryderon, yn teimlo mor rhwystredig ynghylch agwedd y Bwrdd Iechyd tuag at ei chwyn nes iddi deimlo bod yn rhaid iddi ofyn am gymorth eiriolwr, yn rhoi hyder i aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r system.”

Yn dilyn ein hymchwiliad, roedd Ms C wedi cysylltu â fy swyddfa.

Meddai:

*“Diolch i chi unwaith eto am bopeth rydych wedi'i wneud i geisio dod o hyd i rhyw fath o ateb i fy nheulu, ond, yn anad dim, y gwir.”*

# Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol

Mae gwarchod yr amgylchedd yn flaenoriaeth, ac yn ffocws ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Anogir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i staff i wneud newidiadau lle bo modd i leddfu effaith y swyddfa ar yr amgylchedd ac i weithredu mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol.

## Ein Hadeilad

Mae gennym un swyddfa ym Mhen-coed, ger Pen-y-bont ar Ogwr. Yn wreiddiol, roeddem wedi ymgymryd â'r les ar gyfer y llawr gwaelod yn 2005. Ers hynny, rydym wedi ehangu i feddiannu rhan o'r llawr cyntaf a'r ail lawr er mwyn cael lle i oddeutu 60 aelod o staff ac ymwelwyr mewn swyddfa agored yn bennaf.

Trydan yw'r unig gyflenwad ynni rydym yn ei ddefnyddio ac mae hwn yn darparu goleuadau a gwres/cyfleusterau oeri yn ogystal â phweru offer swyddfa arferol. Rydym yn rhentu'r adeilad, sy'n cyfyngu ar ein gallu i newid effeithiolrwydd yr adeilad o ran ynni.

## Ystadegau'r Adeilad

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth allweddol am ein swyddfeydd ym Mhen-coed, yn ogystal â'r trefniadau gwresogi a'r defnydd ynni am y flwyddyn.

Adeilad	Wedi'i adeiladu	Nifer y Lloriau	Cyfanswm Arwynebedd y Llawr y Gellir ei Ddefnyddio (tr <sup>2</sup> )	Math o Wres	Trydan a ddefnyddir (kWh)
1 Ffordd yr Hen Gae	2004	3	16,460	Unedau Trin yr Aer	120,791

Tabl 1.3

## Hygyrchedd

Mae gan y swyddfeydd gysylltiadau cludiant rhesymol. Mae'r orsaf rheilffordd ym Mhen-coed (sydd wedi'i lleoli lai na milltir i ffwrdd) ynghyd â'r gwasanaeth bysiau i'r safle ac oddi yno yn darparu dewis o gludiant cyhoeddus i'r staff ac i ymwelwyr. Mae hefyd yn hawdd cyrraedd ein swyddfeydd â char ar hyd traffordd yr M4.

## Allyriadau

Caiff staff eu hannog i ddefnyddio cludiant cyhoeddus lle bo hynny'n addas, wrth gymudo ac ar gyfer cyfarfodd busnes. Mae gennym gawodydd a standiau ar gyfer beiciau yn ein swyddfeydd.

Rydym yn defnyddio cyflenwyr lleol pryd bynnag y bo modd i helpu i leihau ein hallyriadau carbon.

## Golau ac Ynni

Rhoddwyd rhaglen ar waith yn 2017/18 i ddisodli'r goleuadau oedd yno eisoes â bylbiau LED. Mae 50% wedi cael eu huwchraddio i fylbiau sy'n defnyddio 90% yn llai o ynni na bylbiau safonol sydd ag oes hwy, sy'n golygu llai o waith cynnal a chadw a llai o wastraff.

Mewn gweithdy cynaliadwyedd ar gyfer staff yn ddiweddar, nodwyd nifer o gamau eraill y gellid eu cymryd i reoli ein defnydd o ynni yn well. Roedd y rhain yn amrywio o sicrhau bod goleuadau yn cael eu diffodd pan nad yw ystafelloedd yn cael eu defnyddio i ddisodli tegellau a pheiriannau oeri dŵr sy'n sefyll ar eu traed eu hunain gydag oerwyr/gwresogwyr dŵr a gyflenwir drwy'r gwaith plymio.

## Rheoli gwastraff

Rydym yn ailgylchu ein holl bapur gwastraff yn gyfrinachol ac yn ailgylchu gwastraff cyffredinol fel plastig a thuniau, batris a chetris arlliwio. Ychydig o newid a fu yn y gwastraff cyffredinol sy'n cael ei greu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, er bod cynnydd wedi bod yn y gwastraff y gellir ei ailgylchu. Rydym nawr yn ailgylchu deunydd pacio danfoniadau, er enghraifft bocsys cardfwrdd mawr, a dylai hyn helpu i leihau ein gwastraff cyffredinol.

Rydym yn parhau i weithio gyda staff i leihau gwastraff gymaint ag y bo modd, ac yn enwedig gwastraff tirlenwi. Yn dilyn awgrymiadau gan staff, byddwn yn cael gwared â phob bin gwastraff unigol ac yn gosod biniau ailgylchu a rennir ar gyfer ailgylchu cymysg yn y brif swyddfa. Bydd unrhyw wastraff cyffredinol yn cael ei roi mewn un o nifer bach o finiau gwastraff cyffredinol.

Ers cyflwyno ffeiliau achos 'ysgafn o ran papur', mae gostyngiad dramatig wedi bod yn y papur sy'n cael ei ddefnyddio yn y swyddfa drwyddi draw. Rydym hefyd wedi gwneud arbedion drwy gyflwyno papur pennawd electronig sy'n golygu ein bod yn gallu argraffu ar bapur plaen ac mae hyn wedi helpu i leihau papur gwastraff. Rydym yn treialu is-ffeiliau electronig ar hyn o bryd sy'n cael eu defnyddio i rannu dogfennau a chofnodion â

chynghorwyr proffesiynol, yn hytrach na chynhyrchu ac anfon dogfennau ar ffurf copi caled. Os bydd y treial yn llwyddiannus, bydd effaith amgylcheddol argraffu ac anfon ffeiliau yn gostwng, ac, yn ei dro, byddwn yn defnyddio llai o bapur yn y swyddfa.

Mae dau gwmni gwahanol yn casglu gwastraff y swyddfa ar hyn o bryd, sef un ar gyfer gwastraff cyffredinol ac un ar gyfer gwastraff cyfrinachol ac ailgylchu cymysg. Bwriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol yw dod o hyd i un darparwr a fydd yn gallu cyflenwi'r holl wasanaethau sydd eu hangen. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

### Lleihau faint o blastig sy'n cael ei ddefnyddio yn y swyddfa

Mae Llywodraeth y DU yn anelu i gael gwared â'r holl blastig y mae modd ei osgoi cyn pen 25 mlynedd. Nid ydym yn defnyddio cwpanau untro ar gyfer diodydd poeth. Mae staff ac ymwelwyr yn defnyddio mygiau a chwpanau seramig. Gan nad oes gennym bellach beiriannau oeri dŵr potel, nid ydym yn prynu cwpanau plastig untro erbyn hyn. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod cwpan/gwydr y gellir ei aildefnyddio ar gael i staff ac ymwelwyr.

### Ffigurau Gwastraff Presennol

Mae tabl 1.4 isod yn dangos faint o wastraff o wahanol fathau rydym yn ei greu'n wythnosol ac yn flynyddol.

	Yr wythnos (ar gyfartaledd)	Y flwyddyn (ar gyfartaledd)
Gwastraff Cyfrinachol	600 litr	31,200 litr
Ailgylchu Cymysg	600 litr	31,200 litr
Gwastraff cyffredinol (gan gynnwys gwastraff bwyd)	1,100 litr	57,200 litr
<b>Cyfanswm y gwastraff blynyddol 2,300 litr</b>		<b>119,600 litr</b>

Tabl 1.4

Byddwn yn dal ati i leihau ein gwastraff yn ystod 2018/19.

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

---

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol bod yr Ombwdsmon yn llunio adroddiad blynyddol ynghylch materion cydraddoldeb. Rwyf yn gwneud hynny yma fel rhan o fy Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2017/18.

## Hygyrchedd

Fel rhan o'n proses gwynion, rydym yn gwneud ein gorau glas i ganfod cyn gynted â phosibl unrhyw anghenion sydd gan unigolion y mae angen eu diwallu er mwyn i ddarparwyr gwasanaeth allu defnyddio ein gwasanaethau yn llawn. Yn benodol, rydym yn gofyn i bobl roi gwybod i ni pa dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Rydym yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cadarn â mudiadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi defnyddwyr ein gwasanaeth, gan ddefnyddio eu harbenigedd i'n cynghori ni ar sut y gallwn wneud ein gwasanaethau yn fwy hygyrch.

Pryd bynnag y gallwn, rydym yn gwneud addasiadau rhesymol i helpu pobl wneud eu cwyn a'i chyflwyno i ni. Eleni rydym wedi diweddarau ein ffurflenni a'n llythyrau er mwyn gwneud ein trefniadau ar gyfer addasiadau rhesymol yn fwy clir.

Byddwn yn ystyried ac yn ymateb i unrhyw gais am addasiad rhesymol ac mae gennym nifer o gyfleusterau sydd ar gael yn rhwydd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- darparu gohebiaeth Hawdd ei Darllen
- defnyddio Llinell Iaith at ddibenion cyfieithu ar y pryd pan nad yw achwynydd yn teimlo'n gyfforddus i wneud ei gŵyn yn Gymraeg neu'n Saesneg
- cael cymorth arbenigwyr i'n helpu i ddeall gofynion penodol achwynwyr â chyflyrau penodol, er enghraifft, Syndrom Asperger; ac
- ymweld ag achwynwyr yn eu cartrefi.

Rydym hefyd yn mynd ati i ddarparu gwybodaeth ar ein gwefan mewn nifer o fformatau hygyrch, ac yn cyhoeddi dogfennau allweddol mewn fformatau gwahanol, er enghraifft, CD/tâp a Braille, a'u cyfieithu i'r wyth iaith leiafrifol ethnig sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru.

Rydym yn diweddarau ein gwefan yn barhaus, a bellach rydym yn cynnig gwasanaeth BrowseAloud mwy datblygedig arni. Yn ogystal, rydym wedi ymgorffori'r gwasanaeth Google Translate. Mae hyn yn golygu y gellir cyfieithu cynnwys gwefan Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i unrhyw un o 100 o ieithoedd yn awtomatig drwy ddethol. Mae fideo Iaith Arwyddion Prydain a gwasanaeth SignVideo hefyd ar gael ar y wefan.

Mae'r Tîm Cyngor ar Gwynion yn parhau i gyfeirio defnyddwyr y gwasanaeth y mae angen cymorth arnynt i wneud eu cwyn at fudiadau cynghori ac eiriolaeth. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi sefydlu cysylltiadau â mudiadau eiriolaeth eleni i helpu'r achwynwyr hynny y mae angen gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer.

## Monitro/Casglu Data Cydraddoldeb – Defnyddwyr Gwasanaeth

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom barhau â'n gwaith o fonitro cydraddoldeb mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaethau, sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer ein strategaeth allgymorth. Rydym yn gwahodd defnyddwyr gwasanaethau i lenwi holiadur ac yn dadansoddi'r ymatebion rydym yn eu cael. Mae canlyniad y monitro yn ystod 2017/18 yng nghyswllt y grwpiau nodweddion gwarchoddedig (yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) wedi'i nodi isod.

O ystyried natur gwaith y swyddfa hon, rydym yn disgwyl i'r gyfran o achwynwyr â nodweddion gwarchoddedig adlewyrchu poblogaeth Cymru yn gyffredinol, o leiaf. Fodd bynnag, oherwydd bod y rheini â nodweddion gwarchoddedig yn fwy tebygol o gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus neu fod yn ddibynnol arnynt, mae cyfran yr achwynwyr o grwpiau agored i niwed neu dan anfantais yn debygol o fod yn fwy na'r gyfran briodol o'r boblogaeth.

O'r canlyniadau isod, ac ar ôl cymharu â'r data swyddogol sydd ar gael (yn enwedig Cyfrifiad 2011), rwyf yn fodlon bod cyfran y defnyddwyr gwasanaethau â nodweddion gwarchoddedig yn bodloni cyfran y boblogaeth yn y ffordd ddisgwyliedig, neu'n uwch na hynny.

Rwyf yn awyddus i sicrhau bod y rheini sydd â phryderon ynghylch gwasanaethau cyhoeddus yn gwybod am fy swyddfa ac yn gwybod sut mae cysylltu â mi. Mae'n braf gweld, am yr ail flwyddyn yn olynol, fod 5% o'r rheini a wnaeth ymateb wedi nodi eu bod o gefndir lleiafrif ethnig, sydd ychydig yn uwch na'r gyfran gymharol o boblogaeth Cymru (4%).

Rwyf yn nodi bod 60% o'r cwynion yn cael eu gwneud gan bobl rhwng 35 a 64 oed. Er bod rhai o'r cwynion hyn yn cael eu gwneud **ar ran** plant, pobl ifanc neu bobl hŷn, mae'r ffigur hwn yn awgrymu bod angen gweithio i sicrhau bod pobl ifanc a phobl hŷn – y rhai sydd fwyaf dibynnol ar wasanaethau cymorth addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol – yn gwybod am fy ngwasanaeth ac yn gallu cael mynediad ato.

Byddaf yn cynnal dadansoddiad pellach yn ystod y flwyddyn nesaf ac yn defnyddio'r dadansoddiad hwnnw i lywio fy ngweithgarwch allgymorth yn y dyfodol

Grŵp nodweddion gwarchoddedig	Canran Deilliant
<b>Oedran</b>	
Dan 25 oed	3%
25-34	14%
35-44	17%
45-54	23%
55-64	20%
65-74	13%
75 neu hŷn	3%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	7%

<b>Anabledd</b>	
Oes	25%
Nac oes	64%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	11%
<b>Problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar weithgareddau o ddydd i ddydd?</b>	
Ydynt, wedi'u cyfyngu'n fawr	23%
Ydynt, wedi'u cyfyngu ychydig	15%
Nac ydynt	51%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	12%
<b>Ailbennu rhywedd</b>	
Ydw	2%
Nac ydw	86%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	12%
<b>Crefydd neu gred</b>	
Dim crefydd	40%
Cristnogaeth (pob enwad)	48%
Crefyddau eraill	6%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	6%
<b>Wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw</b>	
Ydw	50%
Nac ydw	38%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	12%
<b>Hil/Ethnigrwydd</b>	
Gwyn	89%
Unrhyw gefndir ethnig arall	5%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	6%
<b>Rhyw</b>	
Gwryw	48%
Benyw	45%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	7%
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	
Heterorywiol neu strê	82%
Hoyw neu Lesbiaidd	2%
Deurywiol	2%
Arall	1%
Mae'n well gen i beidio â dweud / Dim ymateb	13%

Tabl 1.5



## Allgymorth

Fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn ein gwaith allgymorth yn ystod 2017/18. Fe wnaethom gynnal ein cysylltiadau â Chomisiynydd Plant Cymru ac, ym mis Mehefin 2017, roedd gennym stondin yn Eisteddfod yr Urdd, a roddodd lwyfan i ni ryngweithio â phlant a phobl ifanc, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'n gwaith ymysg eu rhieni a'u gwarcheidwaid.

Rydym wedi parhau i gynnal ein tri Seinfwrdd – Defnyddwyr Gwasanaethau, Iechyd a Llywodraeth Leol – i roi cyfle i ni ddysgu gan ein rhanddeiliaid a defnyddio eu hadborth i wella ein gwasanaethau.

Yn sgil ein Seinfwrdd Defnyddwyr Gwasanaethau, rydym wedi sefydlu cronfa ddata o gysylltiadau y gall staff gysylltu â nhw os oes angen cyngor arnynt ynglŷn â mater neu bwnc penodol. Mae hwn yn adnodd gwerthfawr ac mae'n ehangu ein sylfaen wybodaeth.

Hefyd, rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â chyrrff y trydydd sector, gan gynnwys RNIB Cymru, Diverse Cymru, Cyngor ar Bopeth ac amryw o gymdeithasau tai, ac rydym wedi bod â stondinau yng nghynadleddau blynyddol Anabledd Dysgu Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

## Monitro/Casglu Data ynghylch Cydraddoldeb Staff

Bob blwyddyn, gofynnir i'n staff lenwi a dychwelyd ffurflen sy'n gofyn am wybodaeth mewn perthynas â phob un o'u nodweddion gwarchoddedig. Wrth gwrs, fe ddatgelir y wybodaeth hon ar sail wirfoddol. Fe wnaeth 44 aelod o staff ymateb i'r arolwg.

<b>Oedran</b>	Dyma gyfansoddiad oedran y staff: O dan 25: 5% 25 - 34: 18% 35 - 44: 32% 45 - 54: 29% 55 - 64: 16%
<b>Rhyw</b>	Nododd 68% o'r staff eu bod yn ferched a nododd 32% eu bod yn ddynion. Pan ofynnwyd i staff a yw'r rhyw maent yn ei arddel yr un fath â'u rhyw pan gawsant eu geni, dywedodd 100% o'r staff a atebodd y cwestiwn ei fod yr un fath, ac ni wnaeth 3 aelod o staff ateb y cwestiwn.
<b>Anabledd</b>	Dywedodd 93% o staff nad oeddent yn anabl, dywedodd 7% o staff eu bod yn anabl (ni wnaeth 2 aelod o staff ateb y cwestiwn). Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt a oedd eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu oherwydd

	problem iechyd neu anabled a oedd wedi para, neu y disgwylir iddi bara, 12 mis, dywedodd 7% eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr, 2% eu bod wedi'u cyfyngu rywfaint, a dywedodd 89% nad oedd eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu (roedd yn well gan 2% beidio â dweud)
<b>Cenedligrwydd</b>	Wrth ddisgrifio eu cenedligrwydd, dywedodd 60% eu bod yn Gymreig, 31% eu bod yn Brydeinig, 7% eu bod yn Seisnig a 2% eu bod yn Wyddelig.
<b>Grŵp Ethnig</b>	Dyma ethnigrwydd y staff: 96% Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, Prydeinig); 2% Gwyn (Gwyddelig); 2% Du (Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig/Caribiaidd).
<b>Iaith</b>	Pan ofynnwyd iddynt am brif iaith eu cartref, dywedodd 84% mai Saesneg ydoedd; a dywedodd 16% mai Cymraeg ydoedd.
<b>Crefydd neu Gred</b>	Dyma oedd ymatebion y staff i'r cwestiwn am eu crefydd: Dim crefydd: 55%; Cristnogaeth: 39%; Arall: 2% (roedd yn well gan 4% beidio â dweud)
<b>Priodas/Partneriaeth Sifil</b>	Nododd 60% o'r staff eu bod yn briod; roedd 2% mewn partneriaeth sifil; roedd 20% yn sengl; fe wnaeth 11% nodi 'arall' (roedd yn well gan 7% beidio â dweud)
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	Wrth ymateb i hyn, fe ddywedodd 89% eu bod yn heterorywiol neu'n strêr a 2% eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd (roedd yn well gan 9% beidio â dweud)

Tabl 1.6

### Hyfforddi Staff

Darperir hyfforddiant i staff er mwyn eu cynorthwyo yn eu swyddi penodol neu at ddibenion eu datblygiad parhaus. Mae'r holl hyfforddiant y gofynnwyd amdano gan aelodau unigol o staff, a'i gefnogi gan y rheolwr llinell, wedi cael ei gymeradwyo. Felly, does dim gwahaniaethau mewn perthynas â chydardoldeb o ran ceisiadau am hyfforddiant a gafodd eu cymeradwyo neu beidio. Mae Proses Datblygu ac Adolygu Perfformiad newydd wedi cael ei chyflwyno, sy'n canolbwyntio'n gryf ar hyfforddi a datblygu'r holl staff ledled y sefydliad. Mae proses a pholisi hyfforddiant a datblygu newydd wedi cael ei chyflwyno hefyd.

**Cyflog a Rhyw – data ar gyfer 31 Mawrth 2018**

O dan ddyletswyddau penodol y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n ofynnol ein bod yn pennu amcan cydraddoldeb ar gyfer rhyw a thâl. Os na fyddwn yn gwneud hynny, mae'n rhaid i ni egluro pam. Ar hyn o bryd, nid oes gennyf amcan penodol mewn perthynas â hyn oherwydd mae cynrychiolaeth dda iawn o fenywod yn y graddfeydd cyflog uwch yn fy swyddfa. Rydym yn adolygu'r sefyllfa'n barhaus ac fe fyddaf yn parhau i gynnal a hybu cydraddoldeb yn y gweithle. Bydd amcanion cydraddoldeb yn cael eu datblygu os bydd hynny'n angenrheidiol. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa bresennol.

Cyflog (Cyflogaeth Amser Llawn)	Gwryw*	Benyw*
Hyd at £20,000	1	7
£20,001 - £30,000	1	8
£30,001 - £40,000	2	13
£40,001 - £50,000	8	17
£50,001 - £60,000	3	1
£60,001 +	2	2
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>17</b>	<b>48</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>65</b>	

\*Mae'r niferoedd yn cynnwys staff sydd i ffwrdd ar absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu  
Tabl 1.7

Mewn perthynas â phatrymau gweithio'r uchod, mae'r holl staff yn gweithio ar sail amser llawn gyda chontractau parhaol, ac eithrio'r canlynol:

Mae 12 aelod o staff yn gweithio'n rhan-amser (10 benyw, 2 wryw).

**Recriwtio**

Mae pum aelod o staff wedi gadael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi recriwtio i gael staff yn lle'r rhai sydd wedi gadael, ar gyfer swydd newydd ac i weithio dros dro yn lle'r rheini sydd i ffwrdd ar absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu a secondiad. Cafodd deg gweithiwr newydd ei recriwtio, pedwar â chontract parhaol a chwech â chontract tymor penodol.

Mae'r data cydraddoldeb a gasglwyd yn ystod ymgyrchoedd recriwtio'r flwyddyn ddiwethaf i'w gweld isod:

## Allwedd

CWS/CO	Swyddog Cefnogi Gwaith Achos/Swyddog Gwaith Achos (ymgyrch recriwtio ar y cyd)
FO	Swyddog Cyllid
IO	Swyddog Ymchwilio
P&RA	Dadansoddwr Ymchwil a Pholisi

		CWS/CO	FO	IO	P&RA
Oedran	Heb ddweud	4%	-	2%	17%
	dan 25	5%	25%	2%	6%
	25-34	24%	-	16%	33%
	35-44	19%	50%	35%	22%
	45-54	24%	25%	33%	22%
	55-64	24%	-	10%	-
	65-74	-	-	2%	-
	75 oed a hŷn	-	-	-	-
		100%	100%	100%	100%
Rhyw	Heb ddweud	14%	-	3%	16%
	Gwryw	43%	100%	42%	17%
	Benyw	43%	-	55%	67%
		100%	100%	100%	100%
Cenedligrwydd	Heb ddweud	4%	-	5%	17%
	Cymreig	62%	75%	47%	44%
	Saesnig	5%	-	3%	-
	Albanaidd	-	-	-	-
	Gogledd Iwerddon	-	-	-	-
	Prydeinig	19%	-	43%	33%
	Gwyddelig	-	-	1%	-
	Arall	10%	25%	1%	6%
		100%	100%	100%	100%
Grŵp Ethnig	Heb ddweud	14%	-	7%	16%
	Gwyn				
	(Cymreig/Albanaidd/Seisnig/Gogledd Iwerddon/Prydeinig)	76%	75%	89%	67%
	Gwyn (Gwyddelig)	-	-	1%	-
	Gwyn (Sipsi/Teithiwr Gwyddelig)	-	-	-	-
	Gwyn (Arall)	-	-	1%	-
	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	-	-	-	6%

		CWS/CO	FO	IO	P&RA
	Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig	5%	25%	1%	-
	Grŵp cymysg neu aml-ethnig	-	-	1%	11%
	Grŵp ethnig arall	5%	-	-	-
		100%	100%	100%	100%
laith	Heb ddweud	5%	-	3%	16%
	Saesneg	90%	75%	93%	67%
	Cymraeg	5%	-	3%	6%
	Dwyieithog (Cymraeg / Saesneg)	-	-	1%	6%
	Arall	-	25%	-	5%
		100%	100%	100%	100%
Anabledd	Heb ddweud	4%	-	4%	16%
	Ydw	10%	-	6%	6%
	Nac ydw	86%	100%	90%	78%
		100%	100%	100%	100%
Gweithgareddau cyfyngedig	Heb ddweud	5%	-	5%	22%
	Ydynt, wedi'u cyfyngu ychydig	5%	-	5%	6%
	Ydynt, wedi'u cyfyngu'n fawr	-	-	-	-
	Nac ydynt	90%	100%	90%	72%
		100%	100%	100%	100%
Crefydd	Heb ddweud	19%	-	8%	16%
	Dim	38%	25%	42%	50%
	Cristnogaeth	43%	75%	48%	28%
	Bwdhaeth	-	-	-	-
	Hindŵaeth	-	-	-	6%
	Iddewiaeth	-	-	1%	-
	Islam	-	-	-	-
	Sikhiaeth	-	-	-	-
	arall	-	-	1%	-
		100%	100%	100%	100%
Yn briod neu mewn partneriaeth sifil	Heb ddweud	15%	-	6%	16%
	Ydw	33%	50%	49%	28%
	Nac ydw	52%	50%	45%	56%
		100%	100%	100%	100%
Rhywioldeb	Heb ddweud	10%	25%	11%	27%
	Heterorywiol	90%	75%	84%	67%

	CWS/CO	FO	IO	P&RA
Hoyw neu Lesbiaidd	-	-	4%	6%
Deurywiol	-	-	1%	-
Arall	-	-	-	-
	100%	100%	100%	100%

Tabl 1.8

O ganlyniad i nifer isel y staff a gafodd eu recriwtio, mae'r data cydraddoldeb ar gyfer y staff a benodwyd wedi'i nodi fel rhan o wybodaeth yr holl staff.

### Disgyblu/Anghydfod

Oherwydd mai dim ond nifer bach o staff sy'n gweithio yn y swyddfa, a nifer bach iawn yr achosion o ddisgyblu/anghydfod, nid yw'n briodol adrodd ar ddata cydraddoldeb ar gyfer y categori hwn oherwydd y risg o ddatgelu pwy yw rhywun. Rwyf yn dal yn fodlon nad oes problemau y mae modd eu nodi fel testun pryder yn y maes hwn.

### Caffael

Mae ein polisi caffael yn cyfeirio at y gofynion cydraddoldeb perthnasol rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr eu rhoi ar waith.

## Fy ngwasanaethau - boddhad a chwynion

### Boddhad Cwsmeriaid

Rydym wedi parhau â'n harfer o gynnal arolwg bodlonrwydd mewn perthynas â boddhad cwsmeriaid â'n gwasanaeth cyswllt cyntaf. Mae'r tabl isod yn rhoi'r manylion ar gyfer 2017/18. Yn ystod 2018/19 rydym yn bwriadu newid ein dull drwy wella ein cyfraddau ymateb a lefel yr adborth rydym yn ei gasglu, er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaeth.

	% yr ymatebwyr sydd wedi rhoi'r ateb 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno' 2017-18
Roedd yn hawdd canfod sut i gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	90%
Roedd y gwasanaeth a gefais yn ddefnyddiol ac yn sensitif	91%
Roedd staff yn gallu deall fy ymholiad / cwyn	91%
Cefais eglurhad clir ynglŷn â'r hyn fyddai'n digwydd i fy ymholiad / cwyn	92%

Tabl 1.9

### Cwynion am wasanaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Rydym yn ceisio darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, ein nod yw:

- darparu proses hygyrch, syml, effeithiol a thryloyw ar gyfer ymchwilio i gwynion am y gwasanaeth a roddwn;
- ymateb yn gyflym i gwynion am y gwasanaeth a ddarparwyd gennym; ac,
- os ydym wedi gwneud rhywbeth yn anghywir neu wedi rhoi gwasanaeth gwael, ymddiheuro a dysgu o'n camgymeriadau.

Mae modd defnyddio ein polisi 'Sut mae cwyno amdanom ni' pan mae achwynwyr yn teimlo ein bod wedi:

- eu trin yn annheg neu'n anghwrtais;
- methu egluro pethau'n glir;

- achosi oedi afresymol;
- methu cyflawni'r hyn y gwnaethom ei ddweud y byddem yn ei wneud;
- methu dilyn ein gweithdrefnau'n gywir.

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y cwynion a gafwyd yn ystod 2017/18 a'u canlyniadau, yn ogystal â'u cymharu â'r sefyllfa yn 2016/17.

	2017/18	2016/17
Cwynion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol*	2	0
Cwynion a gafwyd amdanom ni	33	62
<b>CYFANSWM Y CWYNIION</b>	<b>35</b>	<b>62</b>
<b>DEILLIANNAU</b>		
Wedi'u Cadarnhau	3	11
Heb eu Cadarnhau	29	51
<b>CYFANSWM A GAEWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN</b>	<b>32</b>	<b>62</b>
Parhaus ac yn cael eu dwyn ymlaen at 31 Mawrth 2017	3	2*

\*Roedd Adroddiad Blynyddol 2016/17 yn dangos 1 mewn camgymeriad

**Tabl 1.10**

Cafwyd gostyngiad o 48% yn nifer y cwynion am ein gwasanaeth. Cafodd 9% o'r cwynion hyn eu cadarnhau (yn llawn neu'n rhannol). Mae hwn yn ostyngiad o 8% o'i gymharu â 2016/17 pan gafodd 17% eu cadarnhau (yn llawn neu'n rhannol).

Dyma oedd natur y cwynion a gafodd eu cadarnhau:

Diffyg ymateb neu'r wybodaeth ddiweddaraf	2
Anfodlon â phroses neu bolisi	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>3</b>

**Tabl 1.11**

Cymerwyd y cam gweithredu canlynol mewn perthynas â'r cwynion sydd wedi'u cadarnhau:

- anfonwyd ymddiheuriad at yr achwynydd ym mhob achos a gafodd ei gadarnhau;
- fe wnaethom adolygu'r achos y gwnaed cwyn amdano i sefydlu p'un ai a fyddai penderfyniad wedi gallu cael ei wneud ynghynt ynghylch cydymffurfio ag argymhellion;
- fe wnaethom bennu, cyn pen dau fis, p'un ai a lwyddwyd i gydymffurfio â'r argymhellion i'w bodloni yn yr achos y gwnaed cwyn amdano.



## Y Gwasanaeth Datrys Cwynion Annibynnol (ICRS)

Er bod yr Ombwdsmon yn annibynnol ar y llywodraeth ac nad yw'n cael ei oruchwylio gan reoleiddiwr, er mwyn sicrhau ein bod yn agored i graffu ac adolygu'r ffordd rydym yn delio â chwynion amdanom ni, mae'r Ombwdsmon wedi penodi Adolygydd Cwynion Allanol Annibynnol ar gyfer ein gwasanaeth. Bydd yr Adolygydd Annibynnol Allanol yn ystyried y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon ond ni fydd yn adolygu canlyniad cwynion am gorff cyhoeddus, gwasanaeth cyhoeddus na chynghorydd.

Gofynnodd saith achwynydd i ICRS adolygu eu cwynion am Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn. Cafodd pedwar adolygiad ei gwblhau ac fe gafodd un gŵyn ei datrys drwy ymddiheuriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd ICRS o'r farn bod dwy gŵyn y tu allan i'w gylch gwaith neu'n achosion nad oedd modd i'r gwasanaeth fod o gymorth yn eu cylch. Mae'r rhain fel arfer yn codi lle bo'r gŵyn yn ymwneud ag anghydweld mewn perthynas â phenderfyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cwyn am gorff cyhoeddus.

Nododd ICRS na chafodd y rhan fwyaf o gwynion eu cadarnhau eleni oherwydd eu bod yn fodlon â'r ffordd roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi mynd ati i ddelio â materion yn briodol yn unol â safonau'r gwasanaeth a'r gweithdrefnau y mae wedi'u cyhoeddi. Fe wnaeth ICRS gadarnhau tair cwyn yn llawn neu'n rhannol ac fe gyflwynodd nifer o argymhellion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, naill ai i ymddiheuro'n ffurfiol neu i ystyried gwella prosesau. Roedd yr argymhellion yn cynnwys egluro awdurdod yr Ombwdsmon, a chwmpas ei ddisgresiwn, yn fwy manwl i achwynydd penodol er mwyn rheoli disgwyliadau, gwella'r gwaith o gofnodi addasiadau rhesymol a sicrhau bod y cyfathrebu'n glir a ddim yn rhoi disgwyliadau anghywir ynglŷn â'r hyn y gallai neu y byddai fy swyddfa'n ei wneud.

Rydym wedi rhoi sylw i'r argymhellion a'u rhannu â staff perthnasol.

## Gwasanaethau Cymraeg

Rwyf yn llwyr gefnogi hawliau unigolion sy'n defnyddio fy ngwasanaeth i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennyf gronfa o staff ymroddedig sy'n siaradwyr Cymraeg. Maent yn delio ag ymholiadau Cymraeg gan y Cyhoedd ac yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus sydd wedi dod i law yn y Gymraeg.

Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gennyf wefan gwbl ddwyieithog.

## Data Ariannol Allweddol


Cyllid Adnoddau Net:	£4,248k	Cyfanswm Asedau:	£386k
Gwariant Adnoddau Net:	£4,210k	Cyfanswm y	£742k
Arian i'w dalu'n ôl:	£32k	Rhwymedigaethau:	
		Rhwymedigaethau Net:	£356k

### Gwariant Adnoddau Gros (tudalen 68)

Cronfa Gyfunol Cymru sy'n cyllido Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bob blwyddyn rhaid cyflwyno amcan o gostau rhedeg y swyddfa i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru er ystyriaeth. Ar ôl cytuno arnynt, codir cyllid bob mis a bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y Flwyddyn Ariannol ddilynol.

Roedd y gwariant adnoddau gros yn £4,241k o gymharu â chyllid o £4,280. Roedd modd priodoli'r tanwariant yn bennaf i ostyngiad mewn costau cyfalaf.

Caiff tanwariant arian parod o £32k ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2017/ 18.




### Asedau a Rhwymedigaethau £000 (tudalen 75)

Mae asedau sefydlog yn cynnwys peiriannau a chyfarpar £128k, meddalwedd £7k, symiau derbyniadwy > 1 flwyddyn o £3k.

Mae asedau cyfredol yn cynnwys asedau sydd eto i'w derbyn £186k ac arian parod £32k.

Mae rhwymedigaethau wedi'u diwallu gan symiau taladwy (£250k) a darpariaethau ar gyfer pensiynau a dirywiadau (£537k).

Ceir rhwymedigaeth net o (£356k).



## Costau Gweithredu yn ôl Nodau Strategol (tudalen 84)


Nod 1: Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol.

Nod 2: Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion a ystyrir gennym i wella'r ffordd mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn delio â chwynion a chael effaith ar wella gwasanaethau cyhoeddus a goleuo polisi cyhoeddus.

Nod 3: Parhau i esblygu a thyfu fel swyddfa, yn benodol cynllunio ar gyfer gweithredu pwerau newydd yr Ombwdsmon os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd.

Nod 4: Bod yn atebol am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei wario.

Dadansoddiad yn ôl Nodau




## Tuedd (tudalen 48)

Yn ystod y cyfnod 2011/112 i 2017/18, mae'r baich gwaith wedi cynyddu 83%, ac mae costau uned wedi gostwng 42%.

Ymholiadau +160%  
Cwynion:  
Cod Ymddygiad -35%  
Corff Cyhoeddus +24%

LLWYTH GWAITH O'I GYM HARU Â CHOST UNED



Nick Bennett  
Swyddog Cyfrifyddu  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

27 Mehefin 2018



**Adroddiad  
Atebolrwydd**

---

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

---

## Adroddiad yr Ombwdsmon

### Cefndir


Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cyllidir y swyddfa drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw falansau arian na chawsant eu gwario i'r Gronfa hon bedair wythnos fan bellaf ar ôl i gopi ardystiedig o'r cyfrifon gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn creu mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati'n effeithiol i reoli'r gyllideb ar sail arian ac ar sail adnoddau. Mae cyflog deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r costau cysylltiedig, yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu gweinyddu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Swyddfa 60 o staff wedi'u lleoli ym Mhencoed, Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys yr Ombwdsmon, Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfreithiol a Llywodraethu yn ogystal â staff cefnogi ac ymchwilio.

Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu £4.2 miliwn tuag at gyllido'r Swyddfa er bod £32k o'r arian hwn i fod i gael ei roi yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru gan ei fod yn arian na chafodd ei ddefnyddio erbyn diwedd y flwyddyn. Mae £32k o fewn y meini prawf derbyniol ar gyfer balansau diwedd blwyddyn yng nghyswllt cyllid o 3%. Mae'r Swyddfa wedi llwyddo i gyrraedd lefel gwariant sy'n cyd-fynd â lefel gyffredinol bloc Cymru, sy'n arbennig o drawiadol a chofio'r galw cynyddol sydd wedi bod am wasanaethau'r Swyddfa.

Cymerwyd camau breision dros y blynyddoedd diwethaf i wella effeithlonrwydd o ran sut rydym yn ystyried cwynion. Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth ystyried y baich achosion sy'n cynyddu drwy'r amser. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Swyddfa wedi gweld cynnydd o dros 82% yn nifer yr holl gysylltiadau â'r swyddfa dros y saith mlynedd diwethaf (hynny yw, ymholiadau, cwynion cyrff cyhoeddus a chwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol) a bod costau uned wedi gostwng 42% wrth eu haddasu ar gyfer chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd cynnydd o 4% yn nifer yr ymholiadau a'r cwynion eto. Er gwaethaf hyn, rydym wedi llwyddo o hyd i ragori ar y mwyafrif o'n targedau perfformio. Bu i ni barhau â'n rhaglen diweddarau technoleg gwybodaeth gyda'r bwriad o gael technoleg newydd i gymryd rhywfaint o faich y tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymdrin â chwynion.

### LLWYTH GWAITH O'I GYM HARU Â CHOST UNED



## Taliadau

Ceir manylion costau cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a'r Swyddfa yn yr Adroddiad Taliadau.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r ymrwymadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy'r canlynol:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;
- (b) y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir trwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a
- (c) y pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn-Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Mae manylion pellach i'w gweld yn y Datgeliadau Pensiynau ar dudalen 50.

## Llywodraethu Corfforaethol

Mae deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Gorfforaeth Unigol. Yn ogystal â hynny, wrth ymgymryd â fy rôl fel Ombwdsmon, fe'm penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu'r cronfeydd cyhoeddus gan y Trysorlys, ac yn y cyswllt hwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynof i gyflawni fy swyddogaethau. Sefydlwyd y Panel Ymgynghorol yn ystod 2011/12 ac mae wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd dros y flwyddyn a fu. Mewn adolygiad o'i effeithiolrwydd a gynhaliwyd yn ystod 2015/16, daethpwyd i'r casgliad fod y Panel yn cynnig yr elfen graffu a chymorth ychwanegol a geisir gan Ombwdsmon. Mae manylion pellach wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Cofrestr Buddiannau

Mae cofrestr buddiannau yn cael ei chadw ar gyfer yr Ombwdsmon, cyfarwyddwyr ac aelodau'r Panel Ymgynghorol, a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Cyfarwyddyd Cyfrifyddu

Dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, roedd yn ofynnol i mi ddarparu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu yn yr argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a oedd mewn grym yn 2017/18.

Paratowyd y cyfrifon er mwyn:

- (a) rhoi darlun teg a chywir o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2018, ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a
- (b) datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm o bwys na chafodd ei ddefnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu drafodion o bwys nad oeddynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Archwilwyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodwyd ym mharagraff 17 o Atodlen 1 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Cost archwiliad 2017/18 oedd £18k, dim newid o 2016/17.

Hyd y gwn, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i archwilio.

Nick Bennett  
Swyddog Cyfrifyddu  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

27 Mehefin 2018



## Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

---

Dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn nodi'r adnoddau a brynwyd, a oedd yn cael eu dal neu y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r defnydd o adnoddau gan y Swyddfa yn ystod y flwyddyn ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon adnoddau ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i alldro adnoddau net, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, newidiadau yn ecwiti trethdalwr, a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i mi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn enwedig:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- dweud a yw'r safonau cyfrifo perthnasol fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, dros gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Swyddfa fel y nodir ym memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a lunnir gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus", a'u bod yn unol â Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

---

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18

---

## Statws Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel y nodwyd yn Atodlen 1, paragraff 2 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Unigol sy'n dal y swydd dan Ei Mawrhydi ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ar ran y Goron. Mae Atodlen 1 paragraff 18 yn datgan mai'r Ombwdsmon yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa'r Ombwdsmon.

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Wrth gyflawni fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod y Swyddfa'n gweithio'n effeithiol ac i safon uchel o ran uniondeb. Yn ogystal, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan hefyd ddiogelu'r asedau a'r arian cyhoeddus yr wyf i yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus".

Rwyf yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y defnydd o adnoddau a ddarperir i gefnogi fy swyddogaethau statudol. Wrth bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Swyddfa, ystyrir y cynigion ar gyfer cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r broses a nodir yn y Ddeddf. Byddaf yn llunio Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyfun i'w rhoi gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Cyllid.

Disgwylir i mi gynnwys y datganiad hwn gyda fy nghyfrifon a'm hadroddiad blynyddol er mwyn egluro sut yr eir ati i lywodraethu fy Swyddfa ac i sicrhau bod hynny yn bodloni gofynion y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Er mwyn gallu bodloni'r gofynion hyn, rwyf wedi sefydlu gweithdrefnau, systemau a strwythurau priodol sy'n gynhwysfawr ac sy'n rhoi tystiolaeth i mi fod y trefniadau llywodraethu yn gweithio fel y'u bwriadwyd ar draws y sefydliad a'i weithgareddau. Mae trefniadau o'r fath yn cynnwys fy Fframwaith Llywodraethu, rheolaeth fewnol gynhwysfawr, cwmpas archwiliad mewnol ac allanol effeithiol a gweithdrefnau monitro, cynllunio risg a rheolaeth ariannol gadarn.

## Cynllunio Strategol a Monitro Perfformiad

Wrth ystyried y Cynllun Strategol ar gyfer y tair blynedd rhwng 2016/17 a 2018/19, rwyf wedi sefydlu'r canlynol:

**Gweledigaeth:** Diwylliant gwasanaeth cyhoeddus sy'n rhoi gwerth ar gwynion ac sy'n dysgu yn eu sgil i wella darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus

**Cenhadaeth:** Trwy ystyried cwynion, unioni pethau i ddefnyddwyr gwasanaethau a chyfrannu at ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a safonau mewn bywyd cyhoeddus.

Er mai gwaith y timau unigol yn y Swyddfa yw rhoi'r camau a nodwyd ar waith, mae'r Tîm Rheoli a'r Panel Ymgynghorol yn monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn targedau a'r canlyniadau a sicrhawyd drwy adroddiadau chwarterol. Roeddwn yn falch iawn bod yr holl weithgareddau allweddol a bennwyd ar gyfer 2017/18 wedi'u cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## System Rheolaeth Fewnol

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i llunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'n seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni fy mholisiau, fy nodau a'm hamcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system wedi bod mewn grym gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM. Ni chanfuwyd gwendidau sylweddol o ran rheolaeth fewnol yn sgil gwaith archwilio ac mae camau i wella rheolaeth eto yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon ac yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys Panel Ymgynghorol o ymgynghorwyr allanol sy'n cael cymorth Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sy'n is-bwyllgor y Panel. Dyma gyfrifoldebau'r naill a'r llall:

## Panel Ymgynghorol

### (a) Rôl y Panel

Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol a'i brif rôl yw darparu cefnogaeth a chynngor i'r Ombwdsmon er mwyn iddo allu arwain a llywodraethu swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dda. Hefyd, mae'r Panel Ymgynghorol yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisiau ac arferion.

Mae'r Panel Ymgynghorol yn rhoi cefnogaeth a chymorth penodol i'r Ombwdsmon ar y canlynol:

- gweledigaeth, gwerthoedd a dibenion
- cyfeiriad strategol a chynllunio
- atebolrwydd i ddinasyddion am y cyllid cyhoeddus a gaiff
- trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol

Cynghori'r Ombwdsmon yn unig yw gwaith y Panel Ymgynghorol, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau drwy ei hawl ei hun.

Mae'r Panel hefyd yn cynorthwyo'r Ombwdsmon i sefydlu:

- trefniadau llywodraethu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl unrhyw is-bwyllgorau
- cyfeiriad strategol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ei nodau, ei amcanion a'i dargedau
- polisiau busnes allweddol
- polisiau a strategaethau cyflogaeth pwysig

ynghyd â chraffu a rhoi sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Busnes Blynyddol
- dyraniad cyllideb lefel uchel
- cyflwyno'r Amcangyfrifon cyllidebol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- cyfrifon adnoddau (wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg);
- contractau dros £25k (wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg).

Mae hefyd yn monitro ac yn adolygu'r canlynol:

- rheolaeth fewnol a risg (wedi'i dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg)
- perfformiad a chyflawni gweithredol
- perfformiad ariannol

- effeithiolrwydd polisiau a strategaethau cyflogaeth
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn arbennig yng nghyswllt Deddf Cydraddoldeb 2010
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid
- iechyd a diogelwch a pharhad busnes.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod a hynny ym mis Gorffennaf, Medi a Rhagfyr 2017 ac ym mis Mawrth 2018.

## (b) Aelodaeth

Mae'r aelodaeth yn cynnwys:

- yr Ombwdsmon (Cadeirydd oherwydd ystyriaethau'n ymwneud ag atebolrwydd cyfansoddiadol)
- hyd at chwe aelod allanol (sy'n cynnig y profiad a'r sgiliau penodol y mae'r Ombwdsmon eu heisiau, a gall un ohonynt fod o swyddfa ombwdsmon arall).

Mae'r Cyfarwyddwr Polisi, Cyfraith a Llywodraethu yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel; gall aelodau eraill o'r Tîm Rheoli fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon ond nid ydynt yn aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ffurfiol.

Caiff Aelodau'r Panel eu recriwtio drwy ymarferion recriwtio agored, ac fe gafodd yr un diwethaf o'r rhain ei gynnal yn chwarter cyntaf 2017/18 oherwydd bod cyfnod swyddi nifer o aelodau annibynnol y Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn dod i ben yn 2017/18 neu ddechrau 2018/19.

Dyma gofnod o'r presenoldeb yn ystod 2017/18:

### Aelodau:

Nick Bennett – Ombwdsmon a Chadeirydd	4
Jonathan Morgan	4
Margaret Griffiths	3
Anne Jones (o fis Medi ymlaen)	3
Tom Frawley (o fis Rhagfyr ymlaen)	2
Jim Martin (o fis Rhagfyr ymlaen)	2
Bill Richardson (Gorffennaf - Medi)	2
Sharon Warnes (Gorffennaf - Medi)	2
Beverley Peatling (mis Rhagfyr yn unig)	1
Jan Williams (hyd at fis Gorffennaf)	1
John Williams (hyd at fis Gorffennaf)	1

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

### (a) Cylch Gorchwyl

Y Panel Ymgynghorol sy'n gyfrifol am gytuno ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cefnogi'r Ombwdsmon drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynnol yw'r sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, amgylchedd rheoli a didwylledd datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

### (b) Aelodaeth

Oherwydd bod cyfnod swyddi nifer o Aelodau Annibynnol yn dod i ben yn 2017/18, fe gynhaliwyd ymarfer recriwtio ym mis Mehefin 2017. Cafodd tri Aelod Annibynnol newydd eu recriwtio ac aethant i'w cyfarfodydd cyntaf ym mis Rhagfyr 2017. Yr aelodau newydd yw Dr Tom Frawley CBE, cyn-Ombwdsmon y Cynulliad a Chomisiynydd Cwynion Gogledd Iwerddon; Jim Martin, cyn-Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban; a Beverley Peatling, Rheolwr Prosiect/Dadansoddwr Busnes y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (yr Uned Gwrth-derfysg) (Dim ond i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr ddaeth Beverley oherwydd ei bod wedi ymddiswyddo yn fuan ym mis Ionawr o ganlyniad i newid yn ei hamgylchiadau a oedd yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau). Daeth cyfnod William Richardson yn ei swyddi i ben ym mis Medi 2017 ac fe benodwyd Jonathan Morgan yn Gadeirydd; daeth hynny i rym yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2017. Fel y nodwyd eisoes, mae profiad blaenorol Mr Morgan fel Aelod Cynulliad a chyn-gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wedi ychwanegu gwerth at yr ARAC ac at rôl y Cadeirydd. Camodd Sharon Warnes i lawr o'i rôl fel Aelod Annibynnol ym mis Medi 2017

### (c) Hyfforddiant

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol. Darperir rhaglen gynefino ar gyfer holl aelodau'r Panel Ymgynghorol, sy'n cynnwys cynefino'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel y bo'n briodol. Cynhaliwyd diwrnod cynefino ym mis Rhagfyr 2017 ac fe ddaeth yr holl aelodau newydd iddo. Ym mis Hydref 2017, aeth y Cyfrifydd Ariannol i weithdy Seiberddiogelwch ar gyfer cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg, a oedd yn cael ei hwyluso gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran y Cadeirydd. Roedd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer rhwydweithio a rhannu arferion da a gwybodaeth.

### (d) Cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor yn llunio ei raglen waith flynyddol ei hun. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ymhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor wedi cael nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda. Roedd un o'r rhain yn ymwneud â Rheoli Risg - cafodd dull newydd ar

gyfer y gofrestr risg ei gynnig yn 2016/17 ac, ar ôl i Bwyllgor a Thîm Rheoli Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei ystyried, cafodd y fformat newydd ei gymeradwyo a'i fabwysiadu yn 2017. Prif egwyddor fformat presennol yr adroddiad rheoli risg yw bod pum gorwel risg allweddol a bod pob tîm, wedyn Tîm Rheoli Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn cynnal asesiad rheolaidd o bob un o'r gorwelion risg hyn:

- Swyddogaethau Craidd
- Preifatrwydd Data / Diogelwch Gwybodaeth
- Cyllid
- Gweithredu a Chymorth
- Llywodraethu

Mae hyn wedi disodli'r dull blaenorol o nodi risgiau a'u dyrannu i gategorïau risg. Cyflwynir tabl i'r Pwyllgor sy'n crynhoi'r risgiau ac asesiad o'r pum gorwel risg er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r prif risgiau. Mae lefel gyffredinol y risg sy'n wynebu'r Swyddfa wedi aros yn isel ac, at ei gilydd, yn ddisymud. Dyma gofnod o'r presenoldeb:

#### Aelodau:

Jonathan Morgan (Cadeirydd Rhagfyr - Mawrth)	4
William Richardson (Cadeirydd Gorffennaf -	2
John Williams	4
Tom Frawley (o fis Rhagfyr ymlaen)	2
Jim Martin (o fis Rhagfyr ymlaen)	2
Sharon Warnes (Gorffennaf - Medi)	2
Beverley Peatling (mis Rhagfyr yn unig)	1

Roedd adroddiadau sefydlog eraill a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gysylltiedig â datganiadau ynghylch a oes unrhyw dwyll neu golledion, gan gynnwys colli data, wedi dod i'r amlwg.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau ar unrhyw faterion priodol a oedd o fewn ei Gylch Gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys: cyfrifon 9 a 12 - mis, cynlluniau archwilio mewnol, y newyddion diweddaraf am y cynllun parhad busnes, a materion llywodraethu corfforaethol ac ariannol perthnasol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Ym mhob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor gopi, er gwybodaeth, o'r adroddiad Monitro Cyllideb diweddaraf sy'n cael ei ystyried gan y Tîm Rheoli. Bwriad hwn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y Swyddfa yn cadw llygad cyson ar y sefyllfa ariannol.

Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i'r Ombwdsmon er mwyn sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 yn cynnwys gwybodaeth briodol ac yn cydymffurfio ag arferion gorau.

#### (e) Archwilio Mewnol ac Allanol

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol. Cynlluniwyd gwaith Deloitte, yr Archwilwyr Mewnol, yn ystod y flwyddyn ar sail asesiad cyffredinol o'u hanghenion a'i gyflawni drwy eu trydedd raglen flynyddol. Roedd ei adroddiadau yn nodi'r fframwaith boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol yn y sefydliad a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen.

Roedd y rhaglen archwilio dreiglol a oedd yn cynnwys elfennau eraill gwaith a mesurau rheoli'r Swyddfa hefyd yn cyfeirio at y fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y Swyddfa, ac roeddent yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella lle roedd angen. Roedd yr asesiadau cyffredinol fel a ganlyn:

Rheolaeth TG Gyffredinol	sicrwydd CYMEDROL
Data Cod Agored	sicrwydd SYLWEDDOL
Ymgynghorwyr Proffesiynol	sicrwydd SYLWEDDOL
Systemau Ariannol:	
Rheoli'r Gyllideb	sicrwydd SYLWEDDOL
Prynu a Thaliadau	sicrwydd CYMEDROL
Rheoli Arian Parod a Bancio	sicrwydd SYLWEDDOL
Rheoli Risg	sicrwydd SYLWEDDOL

Yn y rhan fwyaf o archwiliadau, roedd lefel y sicrwydd yn cael ei hystyried yn "Sylweddol". Fodd bynnag, roedd dau faes lle roedd lefel y sicrwydd yn "Gymedrol". Roedd un yn ymwneud â Rheolaeth TG Gyffredinol a'r gwaith ffurfiol o gofnodi a dogfennu'r profion hacio TG sydd wedi'u cynnal. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn ac fe gafodd adroddiad llawn ar y gwaith profi ei ddarparu a'i rannu â darparwyr cymorth TG. Y maes arall â lefel sicrwydd "Gymedrol" oedd Prynu a Thaliadau, lle y daethpwyd o hyd i archeb brynu ar gyfer gwasanaethau cyfieithu nad oedd wedi cael ei cydlofnodi. Nododd yr archwiliad hefyd nad oes angen archebion prynu ar gyfer rhent, cyfraddau busnes, cyfleustodau ac ati, ac na aethpwyd i'r afael â hyn yn y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn yr adolygiad nesaf o brosesau wedi'u dogfennu yn Chwarter 3 2018/19 (h.y. erbyn mis Rhagfyr 2018).

Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2017/18: 'Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, rydym yn gallu dod i'r casgliad fod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru system rheolaeth fewnol gadarn, a ddylai roi **sicrwydd sylweddol** o ran cyflawni amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'.



Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn lleihau pa mor agored yw'r Swyddfa i risg. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol y rheolwyr i'r argymhellion a wnaed.

Caiff y rôl archwilio allanol ei chyflawni gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrifon Blynyddol a oedd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu'r Swyddfa ar gyfer 2016/17 ynghyd ag Adroddiad Archwiliad Allanol o Ddatganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli. Cafodd casgliadau archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2017.

Rhodddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2016/17 ar 21 Gorffennaf 2017 gyda'r ddau argymhelliad a oedd eisoes wedi'u derbyn yn llwyr gan y tîm rheoli. Mae'r rhain wedi cael gweithredu yn yr adolygiad blynyddol o gyfrifon 2017/18.

Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os ystyrir hynny'n briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored gyda'r Cadeirydd a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Mae ansawdd y gwaith archwilio a safon gwaith y Pwyllgor wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a'r ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.

I sicrhau y gellir codi materion priodol yn gyfrinachol mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol. Cynhaliwyd cyfarfod o'r fath ar 28 Mawrth 2018.

#### **(f) Prosesau monitro**

Ym mhob cyfarfod yn ystod 2017/18, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn fodlon bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael neu am gael eu rhoi ar waith erbyn chwarter cyntaf 2018/19.

#### **(g) Asesiad ac Adolygiad Blynyddol**

Cynhelir yr adolygiad blynyddol hwn er mwyn sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arfer Da sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. I helpu'r Pwyllgor benderfynu a oedd yn cydymffurfio ag arferion da, gwahoddwyd, pob aelod i lenwi 'Rhestr Wirio Hunanasesiad Pwyllgorau Archwilio' y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cafodd sylwadau gan aelodau o'r Pwyllgor eu hystyried wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18.

Casgliad yr adroddiad oedd ei fod wedi cael gwybodaeth a sicrwydd cynhwysfawr a oedd yn ddibynadwy ac yn ddigon iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Roedd y sicrwydd hwn yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol.

Felly, roedd y Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd y byddai'n fy nghynorthwyo i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt rhoi tystiolaeth a fyddai'n helpu gyda'r gwaith o baratoi y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

### Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau sy'n ymwneud â Data Personol

Mae pob digwyddiad sy'n ymwneud â data personol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, pa un ai bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar fai neu beidio. Os bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar fai, bydd canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu defnyddio i ystyried a yw'n angenrheidiol rhoi gwybod i'r swyddfa honno am y digwyddiad.

### Y Fframwaith Risg a Rheoli

Yn unol â "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" rwyf yn cael fy nghefnogi gan Gyfrifydd Ariannol proffesiynol a chymwys sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid fel sy'n cael ei nodi yn y ddogfen honno.

Mae rheoli risg a'r gofrestr risgiau yn eitemau sefydlog ar Agenda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Rwyf yn parhau i wella'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol gadarn er mwyn sicrhau bod y Swyddfa'n gallu canfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol. Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, cefais gefnogaeth gan y Prif Swyddog Gweithredol y mae rhai o gyfrifoldebau'r Ombwdsmon wedi cael eu dirprwyo iddo. Yn ogystal, y Tîm Rheoli a gadeirir gennyf fi sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r broses rheoli risg. Rwyf yn fodlon bod y systemau sydd ar waith yn canfod risgiau posibl yn gynnar ac yn caniatáu, trwy reolaeth weithredol, i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith andwyol ar y swyddfa. Fel yr wyf wedi'i nodi eisoes, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael adroddiadau rheolaidd am Risgiau'r Swyddfa hon.

Caiff risgiau eu hystyried ledled nifer o feysydd allweddol neu orwelion risg. Mae'r rhain yn cynnwys:


- risgiau a allai effeithio ar fy ngallu i gyflawni fy swyddogaethau craidd;
- risgiau sy'n effeithio ar ddiogelwch data;
- risgiau ariannol;
- risgiau o ran llywodraethu;
- risgiau sy'n effeithio ar drefniadau cymorth a chyfleusterau (fel eiddo a gwasanaethau TG).

Dyma'r prif risgiau a nodwyd ar ddiwedd y flwyddyn:


Gorwel risg	Risg yn effeithio ar:	Rheoli risg a lliniaru:	Risgiau anodd cael gwared arnyn nhw:
Swyddogaethau craidd	Gallu rheoli llwyth achosion mawr a chymhleth yn effeithiol	Recruiwio staff i gynnal sefydliad staff llawn. Adolygu a gwella prosesau mewnol Rheoli perfformiad a llwyth achosion yn ofalus. Hyfforddiant a chymorth i staff.	O ystyried y twf yn nifer y cwynion am iechyd, achosion mwy cymhleth, a'r her gynyddol gan gyrff y gwneir cwyn amdanynt, caiff y risgiau anodd cael gwared arnyn nhw eu hystyried yn rhai <b>COCH (difrifol)</b>
Diogelu Data	Diogelwch data personol	Polisi diogelu gwybodaeth a hyfforddiant at gyfer staff. Cyfyngu mynediad i ddogfennau â chyfrinair ac amgryptio data. Negeseuon atgoffa a rhannu gwersi o ganlyniad i golli data.	Mae nifer y llythyrau, y negeseuon e-bost a'r dogfennau y mae fy swyddfa yn delio â nhw yn gwneud hon yn risg sylweddol. Gall gwallau dynol ddigwydd hyd yn oed pan fo mesurau rheoli cadarn ar waith. Caiff y risgiau anodd cael gwared arnyn nhw eu hystyried yn rhai <b>COCH (difrifol)</b>
Diogelu Data	Diogelwch y system – diogelwch ffisegol a seiberddiogelwch	Rheolaethau TG cadarn wedi'u dogfennu a'u harchwilio, rheoli gyda chyfrineiriau, trefniadau gwneud copi wrth gefn, cymorth TG allanol, profion hacio, diweddariadau meddalwedd rheolaidd.	Mae diogelwch TG yn flaenoriaeth uchel ac mae rheolaethau ar waith, ond mae'r risg o ymosodiadau seiberddiogelwch yn dal yn risg real i bawb ac i bob sefydliad. Caiff y risgiau anodd cael gwared arnyn nhw eu hystyried yn rhai <b>COCH (difrifol)</b>

Byddaf i a fy Nhîm Rheoli yn dal ati i reoli a lleihau'r risgiau i'r graddau mwyaf posibl yn y meysydd allweddol hyn yn ystod y flwyddyn nesaf, ac fe fydd y risgiau yn cael eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Trefniadau Fframwaith Sicrhau Risg



### Cydrannau Map Sicrwydd



## Y Broses Gyllidebu

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod gennyf drefniadau ar waith sy'n cadw rheolaeth dynn ar yr arian cyhoeddus sydd yn fy ngofal. Mae'r Tîm Rheoli yn cael adroddiad monitro cyllideb bob mis sy'n nodi gwir wariant o'i gymharu â'r gwariant a glustnodwyd yn y gyllideb. Mae unrhyw faterion annisgwyl yn ymwneud â gwariant sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu trafod a phennir camau i'w cymryd i sicrhau bod y swyddfa yn cadw o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. Ni chododd dim materion yng nghyswllt cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017/18.

O ran y broses llunio amcangyfrif ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19, cafodd papur yn nodi meini prawf cychwynnol ar gyfer y gyllideb ei drafod gan y Panel Ymgynghorol ym mis Gorffennaf 2017. Yn dilyn hyn trafodwyd papur amcangyfrif drafft o'r gyllideb yn y cyfarfod ym mis Medi 2017. Roedd y papur hwn yn nodi'n llawn yr adnoddau ariannol yr oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn i'r Ombwdsmon allu cyflawni ei ddyletswyddau. Cyflwynwyd y papur Amcangyfrifon terfynol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y papur ym mis Hydref 2017 ac roeddwn yn falch o allu bod yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau penodol Aelodau'r Cynulliad ar yr hyn a gyflwynwyd.

Ar ôl hynny, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr amcangyfrif ariannol llawn ar gyfer 2018/19.

## Casgliad

Gallaf ddatgan nad oedd gwendidau o bwys yn system rheolaeth fewnol y Swyddfa yn 2017/18 a fyddai wedi effeithio ar allu'r Swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion a bod trefn Lywodraethu Gorfforaethol gadarn ar waith heb unrhyw enghreifftiau o dorri'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Nick Bennett  
Swyddog Cyfrifyddu  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

27 Mehefin 2018

# Adroddiad Taliadau

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod fy nhaliadau a chostau pensiwn ac yswiriant gwladol cysylltiedig yn cael eu talu o Gronfa Gymunedol Cymru, yn hytrach na chael eu talu'n uniongyrchol. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad taliadau er mwyn sicrhau tryloywder.

## Taliadau

Mae'r adrannau canlynol yn nodi tâl a buddiannau pensiwn uwch reolwyr y Swyddfa: Nick Bennett - Ombwdsmon, Chris Vinestock - Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau a Katrin Shaw - Cyfarwyddwr Polisi, Cyfraith a Llywodraethu.

Un Cyfanswm Tâl										
Swyddogion	Cyflog (£'000)		Taliadau bonws (£'000)		Buddion mewn ffyrdd eraill (i'r £100 agosaf)		Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)		Cyfanswm (£'000)	
	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17
Nick Bennett	145-150	140-145	-	-	-	-	56,000	57,000	200-205	200-205
Chris Vinestock	90-95	90-95	-	-	-	-	27,000	79,000	120-125	170-175
Katrin Shaw	75-80	70-75	-	-	-	-	30,000	74,000	105-110	145-150

## Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau bod trethiant y DU yn berthnasol iddynt.

## Buddion o fath arall

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion o fath arall yn cynnwys unrhyw wariant a dalwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac sy'n cael ei drin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni chafwyd gwariant o'r fath.

## Taliadau bonws

Ni thalwyd bonws yn ystod y flwyddyn i mi nac i unrhyw aelod o staff yn fy swyddfa gan nad oes cynllun bonws ar waith.

## Cymarebau tâl

Roedd tâl band y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn y flwyddyn ariannol 2017/18 yn £145-£150,000 (2016/17, £140-£145,000). Roedd hyn 3.6 gwaith (2016/17, 3.5) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £41,025 (2016/17, £40,623). Yn 2017/18, ni chafodd dim cyflogai daliad a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf (2016/17, dim un).

Roedd ystod y taliadau rhwng £17,000 a £150,000 (2016/17 £14,000 i £145,000). Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl seiliedig ar berfformiad heb ei gyfuno, a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

## Dyfarniadau cyflog

Mae cyflogau'r staff yn gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a roddir i weithwyr sy'n gweithio ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r drefn honno, cafodd staff godiad cyflog o 2% a oedd yn cwmpasu'r flwyddyn rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018.

## Pensiynau

Isod, dangosir hawliau pensiwn yr unigolion a enwir uchod:

Enw	Pensiwn cronodig ar oed pensiwn ar 31/03/2018 a'r cyfandaliad cysylltiedig	Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oed pensiwn	CETV ar 31/03/2018	CETV ar 31/03/2017	Gwir gynnydd yn y CETV	Cyfraniad y cyflogwr at gyfrifon pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£100 agosaf
Nick Bennett	35-40	2.5-5	395	347	25	-
Chris Vinestock	55-60	0-2.5	706	651	12	-
Katrin Shaw	25-30	0-2.5	403	364	13	-

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy'r canlynol:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- (b) y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir trwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa)
- (c) y pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Mae manylion pellach i'w gweld yn y Datgeliadau Pensiynau ar dudalen 50.

## Salwch

Yn ystod y flwyddyn, collwyd 5.6 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd salwch o'i gymharu â 4.0 diwrnod yn 2016 / 17. Mae hyn gyfwerth â 2.1% (1.5% yn 2016/17) o gyfanswm y diwrnodau gwaith posibl.

Roedd modd priodoli'r cynnydd i dri aelod staff a oedd i ffwrdd gyda salwch tymor hir, a oedd yn gyfrifol am 61% neu 3.4 o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd salwch.

## Adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael

Gwnaed tri thaliad â chyfanswm o £94 mil i staff a adawodd eu swyddi ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eleni. Ni thalwyd pecynnau ymadael yn 2016/17.



## Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Gwnaed y taliadau amhensiynadwy canlynol, sy'n seiliedig ar gyfradd ddyddiol, i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Panel Ymgynghorol:

	2017/18	2016/17
	£	£
Jonathan Morgan	1,565	1,244
William Richardson	1,263	2,737
John Williams	904	1,711
Jan Williams	-	-
Margaret Griffiths	564	1,269
Sharon Warnes	622	1,711
Jim Martin	622	-
Tom Frawley	622	-
Anne Jones	846	-
Beverley Peatling	622	-

O ganlyniad i amseru hwyr cyfarfodydd mis Mawrth 2018, dim ond 3 thaliad a wnaed i aelodau'r pwyllgor yn ystod 2017/18.

At ddibenion adrodd ynghylch staff, gweler yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb.

Nick Bennett  
Swyddog Cyfrifyddu  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

27 Mehefin 2017

# Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd yn unol â'r **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi datganiad a nodiadau cefnogi i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr Amcangyfrifon o'r Cyflenwad a gyflwynir i'r Cynulliad, yng nghyswllt pob cais am adnodd.

## Crynodeb Alldro Adnoddau Net

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Amcangyfrif Diwygiedig			Alldro			Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif	2016/17  Cyfansw m Net
	Gwariant Gros	Incwm	Cyfans wm Net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfansw m Net		
	£000	£000	£000	£000	£000	£000		
Refeniw	4,255	(32)	4,223	4,221	(31)	4,190	33	4,025
Cyfalaf	25	-	25	20	-	20	5	27
<b>Adnoddau Net</b>	<b>4,280</b>	<b>(32)</b>	<b>4,248</b>	<b>4,241</b>	<b>(31)</b>	<b>4,210</b>	<b>38</b>	<b>4,052</b>
<b>Gofynion Arian Parod Net</b>	<b>4,242</b>	<b>(32)</b>	<b>4,210</b>	<b>4,209</b>	<b>(31)</b>	<b>4,178</b>	<b>32</b>	<b>4,240</b>

Caiff yr Ombwdsmon ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, nid gan y swyddfa, felly nid yw hyn wedi'i gynnwys yng nghyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

I sicrhau tryloywder, mae taliad yr Ombwdsmon yn parhau i gael ei ddatgelu yn yr Adroddiad Taliadau.

# Cysoni Adnoddau Net â'r Gofynion Arian Parod Net

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Nodyn	2017/18	2017/18	Cyfanswm alldro net	2016/17
		Amcangyfrif diwygiedig	Cyfanswm yr Alldro Net	o'i gymharu â'r amcangyfrif diwygiedig	Alldro
		£000	£000	£000	£000
Refeniw Net	2-4	4,223	4,190	33	4,025
Cyfalaf Net	6	25	20	5	27
<b>Adnoddau Net</b>		<b>4,248</b>	<b>4,210</b>	<b>38</b>	<b>4,052</b>
Incwm dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru	4	-	-	-	(5)
Symudiadau mewn darpariaethau	10	22	7	15	(21)
Taliadau Cyfalaf	6	(80)	(43)	(37)	(82)
Symudiadau mewn cyfalaf gwaith	7-9	20	24	(4)	16
Taliadau pensiwn (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)	Pensiynau Datgelu	-	(20)	20	280
<b>Gofyniad arian parod net</b>		<b>4,210</b>	<b>4,178</b>	<b>32</b>	<b>4,240</b>

Does dim taliadau diffyg pensiwn yn daladwy o 2017/18 ymlaen oherwydd mae gwarged gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gwnaed taliad diffyg terfynol o £279,000 yn 2016/17.

Nick Bennett  
Swyddog Cyfrifyddu  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

27 Mehefin 2018

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilwyr Annibynol y Archwilydd Cyffredinol Cymru i Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar y archwiliad o datganiadau ariannol

### Barn

Ar dystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan paragraph 17 (2) of Schedule 1 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb neu Alldro Adnoddau Net, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Cyfunol o Lifau Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan Safonau Cyfrifyddu'r Undeb Ewropeaidd. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel y'i harchwiliwyd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2018 a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Public Services Ombudsman (Wales) Act (2005).

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hyn.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiledig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r gwariant a'r incwm a nodir yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adrodd ar ofynion eraill

#### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gynabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Public Services Ombudsman (Wales) Act (2005).

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys EM;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi'i baratoi yn unol â Public Services Ombudsman (Wales) Act (2005).

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

### Cyfrifoldebau

#### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw hynny'n briodol.

#### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi

adroddiad yr archwilyr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
17 Gorffennaf 2018

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



**Datganiadau  
Ariannol**



# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Nodyn	2017/18	2016/17
		£000	£000
<b>Costau gweinyddu</b>			
Costau staff	2	2,898	2,827
Costau gweinyddu eraill nad ydynt yn gostau staff	3	1,323	1,198
<b>Costau gweinyddu gros</b>		<b>4,221</b>	<b>4,025</b>
Incwm gweithredu	4	(31)	(5)
<b>Costau gweinyddu net</b>		<b>4,190</b>	<b>4,020</b>
<b>Alldro referniw net</b>		<b>4,190</b>	<b>4,020</b>

Mae'r holl weithgareddau sydd wedi cychwyn yn y cyfnod yn parhau.

Mae nodiadau 1 i 19 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2018

	Nodyn	2017/18 £000	2016/17 £000
<b>Asedau anghyfredol</b>			
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	6a	128	140
Asedau anniriaethol	6b	7	18
Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	7	3	-
Gwarged y gronfa bensiw	Datgeliadau Pensiynau	30	40
		<b>168</b>	<b>198</b>
<b>Asedau Cyfredol</b>			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	7	186	163
Arian parod a'r hyn sy'n gyferth ag arian parod	8	32	34
		<b>218</b>	<b>197</b>
<b>Cyfanswm asedau</b>		<b>386</b>	<b>395</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	9	(177)	(172)
Darpariaethau llai na blwyddyn	10	(43)	(83)
		<b>(220)</b>	<b>(255)</b>
<b>Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>166</b>	<b>140</b>
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	9	(28)	(33)
Darpariaethau mwy na blwyddyn	10	(494)	(461)
		<b>(522)</b>	<b>(494)</b>
<b>Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau</b>		<b>(356)</b>	<b>(354)</b>
<b>Ecwiti trethdalwyr:</b>			
<b>Cronfa Gyffredinol</b>		<b>(356)</b>	<b>(354)</b>

Mae nodiadau 1 i 19 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol y Swyddog Cyfrifyddu a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 27 Mehefin 2018 gan:

Nick Bennett  
Swyddog Cyfrifyddu

27 Mehefin 2018

## Datganiad Llif Arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Nodyn	2017/18 £000	2016/17 £000
Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol	11	(4,158)	(4,218)
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	12	(20)	(27)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	13	4,210	4,279
Balans arian parod y flwyddyn flaenorol wedi'i ad-dalu		(34)	(36)
<b>Cynnydd (gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru</b>		<b>(2)</b>	<b>(2)</b>
<b>Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod</b>		<b>34</b>	<b>36</b>
<b>Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod</b>		<b>32</b>	<b>34</b>

Mae Nodiadau 1 i 19 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

Diwygiwyd ffigurau 2016/17 i adlewyrchu newid yn y cyflwyniad.

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Cronfa Gyffredinol 2017/18 £000	Cronfa Gyffredinol 2016/17 £000
<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>(354)</b>	<b>(564)</b>
Costau gweithredu net	(4,190)	(4,020)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	4,210	4,279
Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru		
- Arian parod	(32)	(34)
- Incwm mwy na'r gyllideb a gymeradwywyd	-	(5)
(Diffyg) gwarged actwaraidd	10	(10)
<b>Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig am y flwyddyn</b>	<b>(2)</b>	<b>210</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>(356)</b>	<b>(354)</b>

Mae nodiadau 1 i 19 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

---

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

---

## 1. Datganiad Polisiâu Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y Llawlyfr) a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2017/18. Mae'r polisiâu cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisiâu cyfrifyddu arbennig sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio asedau sefydlog, os yw'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes, drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

### 1.2 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu lle disgwylir i'r hyn a brynir fod ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn a lle mae'r gost yn fwy na £1k. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Dangosir asedau ar sail eu cost, llai lwfans am ddibrisiant. Adeg eu cydnabod ar y cychwyn mesurir asedau, sefydlog ar sail eu cost, gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w cael i weithio ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gafwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd ar gyfer caffael eitemau newydd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth mawr rhwng gwerth net hanesyddol ar bapur yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiant.

### 1.3 Dibrisiant

Caiff asedau eu dibrisio yn ôl cyfraddau a fydd yn eu gostwng i sero neu, os yw'n berthnasol, i amcangyfrif o'u gwerth gweddillol ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig yn dilyn taliad dibrisiant blwyddyn lawn cychwynnol ym mlwyddyn eu prynu. Caiff asedau sy'n cael eu datblygu eu dibrisio o'r flwyddyn y defnyddir yr asedau hynny gyntaf. Ac eithrio pan nodir fel arall y tybir bod asedau byw fel a ganlyn:

Peiriannau	10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai
Dodrefn a ffitiau eraill	10 mlynedd neu gyfnod brydles ar gyfer ffitiau
Cyfrifiaduron a chyfarpar arall	rhwng 3 a 10 mlynedd

### 1.4 Asedau anniriaethol

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynir a meddalwedd a ddatblygir yn cael eu cyfalafu os ydynt yn costio £1k neu ragor ac os yw eu hoes ddefnyddiol yn fwy na blwyddyn. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu'n flynyddol er mwyn canfod lleihad yn eu gwerth a chânt eu datgan ar sail cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded neu dros oes economaidd ddefnyddiol yr offer cyfrifiadurol y maent wedi'u gosod arno, pa un bynnag yw'r byrraf. Fel arfer, byddai hyn rhwng 3 a 5 mlynedd. Caiff meddalwedd a ddatblygir ei hamorteiddio dros ei hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn y flwyddyn y cânt eu prynu, gwneir taliad amorteiddio blwyddyn lawn gyda'r gweddill yn cael ei amorteiddio ar sail llinell syth dros weddill yr oes amcangyfrifedig.

### 1.5 Treth ar Werth

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Felly datgelir gwariant yn cynnwys TAW.

### 1.6 Pensiynau

Mae'r ymrwymadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa), a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau Gomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ac unrhyw fuddiolwr sy'n dal yn fyw. Datgelir y manylion llawn yn y Datgeliadau Pensiynau ar ddiwedd y Datganiadau Ariannol. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr gyda'r enillion a'r colledion actwaraidd

sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn y maent yn codi.

### 1.7 Costau gadael yn fuan

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau ychwanegol buddion sy'n fwy na'r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr pan fydd y rhwymedigaeth yn codi.

### 1.8 Prydlesi gweithredol

Codir tâl am y gwariant ar eiddo a brydlesir yn ystod y cyfnod y mae'n berthnasol iddo. Mae taliadau ar gyfer cyfarpar yng nghyswllt prydlesi gweithredol yn cael eu rhannu'n gyfartal dros oes y brydles.

### 1.9 Costau Staff

Yn unol ag IAS 19, caiff buddion tymor byr cyflogeion, megis cyflogau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, yn ogystal â buddion anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol, eu cydnabod pan fydd cyflogai wedi darparu gwasanaethau yn gyfnewid am y buddion hynny.

### 1.10 Darpariaethau

Symiau yw'r rhain y mae'r swm neu'r amseru sy'n berthnasol iddynt yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ac maent yn cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymadau. Pan fydd effaith gwerth arian o ran amser yn sylweddol, caiff y llifoedd arian amcangyfrifedig yr addaswyd yn ôl risg eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a argymhellir gan Drysorlys EM.

### 1.11 Incwm

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol â Gwasanaethau Archwilio Mewnol 18.

## 1.12 Effaith Safonau heb fod ar waith eto

Safon	Dyddiad dod i rym	Rhagor o fanylion
Offerynnau Ariannol IFRS 9	2018/19	Bydd Offerynnau Ariannol IFRS 9 yn disodli IAS 39 ac yn cynnwys dull newydd sy'n seiliedig ar egwyddorion ar gyfer dosbarthu a mesur asedau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys methodoleg diffyg newydd ar gyfer asedau ariannol yn seiliedig ar y colledion disgwylidig yn hytrach na'r colledion sydd wedi digwydd. Bydd hyn yn arwain at gydnabod colledion credyd disgwylidig yn gynt ac yn fwy amserol. Mae bron y cyfan o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dwyn ymlaen heb eu newid o IAS 39.
Refeniw IFRS 15 o Gontractau gyda Chwsmeriaid	2018/19	Mae Refeniw IFRS 15 o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cyflwyno model pum-cam sy'n seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n codi o gontractau gyda chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor craidd lle mae angen cydnabod refeniw er mwyn rhoi darlun o'r broses trosglwyddo nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u haddo i'r cwsmer ar ffurf swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r corff yn disgwyl bod ganddo hawl i'w gael yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hyn yn gofyn hefyd am ddatgeliadau ar raddfa fwy na'r hyn y gofynnir amdano ar hyn o bryd.
Prydlesi IFRS 16	2019/20	Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon IAS 17 bresennol ar brydlesi. Y newid mwyaf yw ei fod, i raddau helaeth, yn diddymu'r gwahaniaeth rhwng lesioedd cyllid a gweithredu ar gyfer lesdeiliaid drwy gyflwyno un model cyfrifyddu i lesdeiliaid lle mae angen i lesdeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les sydd â thymor hwy na 12 mis, oni bai fod gwerth yr ased sylfaenol yn isel. Bydd hyn yn golygu y bydd pob prydles yn cael ei chydabod ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar yr hawl i ddefnyddio egwyddor sydd â rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhentu yn y dyfodol. Mae hwn yn newid sylweddol o ran cyfrifyddu ar gyfer lesdeiliaid.



## 2. Niferoedd a Chostau Staff

Roedd y costau cyflogaeth gyda'i gilydd fel a ganlyn:

	2017/18 £000	2016/17 £000
Staff parhaol:		
Cyflogau	2,194	2,130
Costau Nawdd Cymdeithasol	210	221
Costau pensiwn	439	448
Ffioedd cronfa bensiwn	55	28
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,898</b>	<b>2,827</b>

Mae costau staff dros dro yn cynnwys staff asiantaeth ynghyd ag unrhyw unigolion a gyflogwyd ar gontract dros dro.

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth â llawn-amser a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr a cyflogaeth cyfnod penodol) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2017/18 Nifer	2016/17 Nifer
Cyfarwyddwyr	2	2
Ymchwiliadau	45	42
Gwasanaethau Corfforaethol ac ITC	7	7
Cyfathrebu a Chynorthwyo Personol	3	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>57</b>	<b>55</b>

### 3. Costau Gweinyddu nad ydynt yn gostau staff

	2017/18	2016/17
	£000	£000
Rhentu o dan brydlesi gweithredol	265	261
Ffi Archwilio Allanol	18	18
Cynghorwyr Proffesiynol	319	230
Costau eiddo eraill	205	174
Gwasanaethau cyfrifiadurol	239	177
Costau swyddfa	98	115
Teithio a chynhaliaeth	36	39
Recriwtio a Hyfforddi	55	45
Cyfathrebu	45	57
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>1,280</b>	<b>1,116</b>
Dibrisiant	32	33
Tâl Amorteiddio	11	49
Colled wrth waredu	-	-
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>43</b>	<b>82</b>
<b>Cyfanswm costau gweinyddu eraill</b>	<b>1,323</b>	<b>1,198</b>

### 4. Incwm gweithredu

	2017/18	2016/17
	£000	£000
Staff ar secondiad	(30)	(4)
Llog sydd i'w dderbyn	-	-
Arall – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	(1)	(1)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(31)</b>	<b>(5)</b>

## 5. Costau Gweithredu yn ôl Nodau Strategol

Mae costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru wedi'u nodi isod. Rydym wedi nodi pedwar nod strategol newydd ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth ac mae dyraniad pob un o'r nodau yn seiliedig ar y canlynol:

- (a) Amcangyfrif o amser y staff a dreuliwyd ar y nod
- (b) Dyraniad uniongyrchol y gwariant lle y bo hynny'n berthnasol
- (c) Dosraniad costau eraill pro rata i amcangyfrif amser y staff

	2017/18		2016/17	
	£000	%	£000	%
<b>Nod Strategol 1:</b>				
Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol.	3,307	78.9	3,097	77.0
<b>Nod Strategol 2:</b>				
Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion a ystyrir gennym i wella'r ffordd mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn delio â chwynion a chael effaith ar wella gwasanaethau cyhoeddus a goleuo polisi cyhoeddus.	661	15.8	677	16.8
<b>Nod Strategol 3:</b>				
Parhau i esblygu a thyfu fel swyddfa, yn benodol cynllunio ar gyfer gweithredu pwerau newydd yr Ombwdsmon os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd.	52	1.2	59	1.5
<b>Nod Strategol 4:</b>				
Bod yn atebol am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei wario.	170	4.1	187	4.7
<b>Costau gweithredu net</b>	<b>4,190</b>	<b>100.0</b>	<b>4,020</b>	<b>100.0</b>

## 6a. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

	Peiriannau	Cyfrifiaduron a chyfarpar arall	Dodrefn a ffitiadau eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
<b>2017/18</b>				
Cost neu werth ar 1 Ebrill 2017	156	182	415	753
Ychwanegiadau	-	5	15	20
Gwarediadau	-	(37)	-	(37)
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>156</b>	<b>150</b>	<b>430</b>	<b>736</b>
<b>Dibrisiant</b>				
Ar 1 Ebrill 2017	(156)	(152)	(305)	(613)
A godwyd yn ystod y flwyddyn	-	(16)	(16)	(32)
Gwarediadau	-	37	-	37
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>(156)</b>	<b>(131)</b>	<b>(321)</b>	<b>(608)</b>
<b>Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>-</b>	<b>19</b>	<b>109</b>	<b>128</b>
Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2017	-	30	110	140
	Peiriannau	Cyfrifiaduron a chyfarpar arall	Dodrefn a ffitiadau eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
<b>2016/17</b>				
Cost neu werth ar 1 Ebrill 2016	156	222	406	784
Ychwanegiadau	-	8	19	27
Gwarediadau	-	(48)	(10)	(58)
<b>Ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>156</b>	<b>182</b>	<b>415</b>	<b>753</b>
<b>Dibrisiant</b>				
Ar 1 Ebrill 2016	(156)	(183)	(299)	(638)
A godwyd yn ystod y flwyddyn	-	(17)	(16)	(33)
Gwarediadau	-	48	10	58
<b>Ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>(156)</b>	<b>(152)</b>	<b>(305)</b>	<b>(613)</b>
<b>Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>-</b>	<b>30</b>	<b>110</b>	<b>140</b>
Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2016	-	39	107	146

## 6b. Asedau Anniriaethol

	Technoleg Gwybodaeth £000	Meddalwedd Trwyddedau £000	Cyfanswm £000
<b>2017/18</b>			
Cost neu werth ar 1 Ebrill 2017	328	71	399
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwarediadau	-	(19)	(19)
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>328</b>	<b>52</b>	<b>380</b>
<b>Amortiddio ar 1 Ebrill 2017</b>	<b>(310)</b>	<b>(71)</b>	<b>(381)</b>
Amortiddio a godwyd yn y flwyddyn	(11)	-	(11)
Gwarediadau	-	19	19
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>(321)</b>	<b>(52)</b>	<b>(373)</b>
<b>Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>7</b>	<b>-</b>	<b>7</b>
Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2017	18	-	18
	Technoleg Gwybodaeth £000	Meddalwedd Trwyddedau £000	Cyfanswm £000
<b>2016/17</b>			
Cost neu werth ar 1 Ebrill 2016	502	71	573
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwarediadau	(174)	-	(174)
<b>Ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>328</b>	<b>71</b>	<b>399</b>
<b>Amortiddio ar 1 Ebrill 2016</b>	<b>(435)</b>	<b>(71)</b>	<b>(506)</b>
Amortiddio a godwyd yn y flwyddyn	(49)	-	(49)
Gwarediadau	174	-	174
<b>Ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>(310)</b>	<b>(71)</b>	<b>(381)</b>
<b>Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>18</b>	<b>-</b>	<b>18</b>
Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2016	67	-	67

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol. Cynhaliwyd dilysiad llawn o asedau TG yn ystod y flwyddyn ac fe gafodd nifer o eitemau nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach eu tynnu o'r gofrestr asedau.

## 7. Symiau Masnach derbyniadwy a symiau Derbyniadwy eraill

	2017/18 £000	2016/17 £000
<b>Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>		
Rhagdaliadau	186	163
Dyledwyr masnach	-	-
<b>Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b>		
Rhagdaliadau	3	-
<b>Cyfanswm</b>	<b>189</b>	<b>163</b>

## 8. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag Arian Parod

Rhaid dychwelyd unrhyw falansau banc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae ffigur o £32k (£34k yn 2016/17) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn yr holl gyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd. Bydd y balans hwn yn cael ei ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2018/19 yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 9. Symiau Masnach taladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol eraill

	2017/18 £000	2016/17 £000
<b>Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>		
Gwyliau blynyddol heb eu cymryd	70	72
Gostyngiad rhent gohiriedig	5	5
Cronfa Gyfunol Cymru – balansau heb eu gwario	32	34
Cronfa Gyfunol Cymru – incwm dros ben	-	5
Symiau masnach taladwy	24	22
Croniadau	46	34
	<b>177</b>	<b>172</b>
<b>Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn</b>		
Gostyngiad rhent gohiriedig	28	33
<b>Cyfanswm</b>	<b>205</b>	<b>205</b>

## 10. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

	2017/18			2016/17	
	Pensiynau ar gyfer Cyn- gomisiynwyr	Costau Dirywiad	Costau Cyfreithiol	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	266	236	42	544	523
Ychwanegol					
Darpariaeth ychwanegol sy'n ofynnol	34	41	-	75	59
Symudiad yn y gyfradd ddisgownt	1	-	-	1	11
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(41)	-	(42)	(83)	(49)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>260</b>	<b>277</b>	<b>-</b>	<b>537</b>	<b>544</b>

Dadansoddiad o bryd y disgwylir i'r darpariaethau gael eu talu:

	2017/18	2016/17
	£000	£000
Taladwy o fewn blwyddyn	43	83
Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd	172	166
Taladwy ar ôl 5 mlynedd	322	295
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>537</b>	<b>544</b>

Mae darpariaethau pensiwn yn cael eu cyfrifo ar sail Tablau Bywyd Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r cynnydd mewn pensiynau yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn yn unol â'r wybodaeth am ddadchwyddydd CMC a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r ffactor disgownt wedi'i newid i 0.10% ar gyfer y flwyddyn ariannol (0.24% yn 2016/17) yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae priod dau o'r cyn-Gomisiynwyr sy'n dal yn fyw yn parhau i fod yn rhwymedigaethau pensiwn.

Mae dirywiadau wedi cael ei cynyddu yn unol â mynegeion adeiladu BICS ar gyfer y costau adeiladu cyffredinol a ddarparwyd gan ymgynghorwyr adeiladu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Darparwyd ffioedd cyfreithiol i amddiffyn achos cyfreithiol, setlwyd yr achos yn y flwyddyn a defnyddiwyd y ddarpariaeth.

## 11. Cysoni'r Costau Gweithredol â'r Llifoedd Arian Gweithredol

	Nodiadau	2017/18 £000	2016/17 £000
<b>Cost gweithredu net</b>		<b>(4,190)</b>	<b>(4,020)</b>
Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol	3	63	92
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	7	(26)	(12)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	9	-	(6)
Taliad i ddiwallu diffyg yn y gronfa bensiwn	Pensiynau Datgelu	-	(290)
Symudiadau mewn darpariaethau	10	(7)	21
Symudiad mewn arian a ad-dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru	8	2	(3)
<b>Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol</b>		<b>(4,158)</b>	<b>(4,218)</b>

Does dim taliadau diffyg pensiwn yn daladwy o 2017/18 ymlaen oherwydd mae gwarged gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 12. Buddsoddiad Ariannol a Gwariant Asedau Anghyfredol

	2017/18 £000	2016/17 £000
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	(20)	(27)
Yr elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar	-	-
Prynu asedau anniriaethol	-	-
<b>Mewnlif arian net drwy weithgareddau buddsoddi</b>	<b>(20)</b>	<b>(27)</b>

## 13. Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â'r Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian Parod

	2017/18 £000	2016/17 £000
Gofynion Arian Parod Net:		
Gweithgareddau gweithredol	(4,158)	(4,218)
Gwariant Cyfalaf	(20)	(27)
	<b>(4,178)</b>	<b>(4,245)</b>
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	4,210	4,279
Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru	(34)	(36)
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod</b>	<b>(2)</b>	<b>(2)</b>



**14. Ymrwymadau o dan Brydlesi Gweithredol**

	2017/18	2016/17
	£000	£000
Cyfanswm taliadau prydles sylfaenol yn y dyfodol ar gyfer yr Adeilad:		
Taladwy o fewn blwyddyn	183	183
Rhwng dwy a phum mlynedd	732	732
Mwy na phum mlynedd	473	656
	<b>1,388</b>	<b>1,571</b>
Arall:		
Taladwy o fewn blwyddyn	20	20
Rhwng dwy a phum mlynedd	12	32
Mwy na phum mlynedd	-	-
	<b>32</b>	<b>52</b>
<b>Cyfanswm – pob prydles weithredol</b>	<b>1,420</b>	<b>1,623</b>

**15. Rhwymedigaethau amodol**

Dim.

**16. Ymrwymadau Cyfalaf**

Nid oedd dim ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2018 (2016/17 Dim).

**17. Trafodion Partion Cysylltiedig**

Pennaeth Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae trefniadau cyllido'r Swyddfa wedi'u trefnu i sicrhau y diogelir annibyniaeth y Swyddfa. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer o drafodion o bwys gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol, Cyllid a Thollau EM (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol) a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil).

Yn ystod y flwyddyn, nid oes dim cyfarwyddwyr, aelodau allweddol o staff na'u partion cysylltiedig wedi ymwneud ag unrhyw drafodion o bwys.

**18. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**

Dim.

**19. Taliadau Arbennig**

Gwnaed tri thaliad â chyfanswm o £94 mil i staff a adawodd eu swyddi ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eleni.

## Datgeliadau Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol – Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa). Hefyd, mae rhwymedigaeth barhaus i fodloni pensiynau di-gyllid dau o berthnasau cyn-Gomisiynwyr Llywodraeth Leol sy'n ddibynyddion.

### Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alffa**, sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfartalog gydag oed pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oed Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi â chynllun **alffa** ynghyd â'r rhan fwyaf o'r rheini eisoes yn y gwasanaeth. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o gynllun Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae gan gynllun PCSPS bedair adran: 3 sy'n rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alffa** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau sy'n rhan o'r cynllun PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i gynllun **alffa** ryw dro rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i gynllun **alffa** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddion cynt yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alffa** – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yng nghynllun PCSPS a chynllun **alffa**, mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn cynnwys gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

